



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

PRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT

POLISI CAFFAEL



Tabl Cynnwys

DARPARIAETHAU CYFFREDINOL	6
1. Cefndir	6
2. Statws y Polisi Caffael	6
PRYNU	7
3. Y Swyddogaeth Brynu	7
AMCANION PRYNU	7
4. Amcanion Cyffredinol	7
5. Amcanion Amgylcheddol	8
6. Cyflawni Amcanion Amgylcheddol	9
STRATEGAETH BRYNU	9
7. Nod y Strategaeth	9
TARGEDAU PRYNU	10
8. Safonau Prynu	10
SYLFEINI PRYNU	10
ARFER CAFFAEL	10
CYFRIFOLDEBAU'R PRYNWYR AWDURDODEDIG	11
9. Cyfrifoldebau	11
COD MOESEG	11
10. Rhagarweiniad	11
11. Praeseptau	11
12. Canllawiau	12
DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU DEILIAID Y GYLLIDEB	12
13. Sail Cyfrifyddu	12
Y WEITHDREFN BRYNU AC ARCHEBU	13
14. Eithriadau i'r Weithdrefn Archebu	14
CAFFAEL CYNALIADWY	15
15. Caffael Cynaliadwy	15
16. Effeithiau allweddol yn ystod oes cynhyrchion	15
17. Costio Bywyd Cyfan	15
PRYNIANNAU GWERTH BACH A MANYLEB Y PRYNIANT	17
18. Gweithdrefnau Arian Parod	17
19. Manylebau	18



Y WEITHDREFN DYFYNBRISIAU - CYFFREDINOL	18
20. Y Weithdrefn Dyfynbrisiau Gyffredinol	18
Y WEITHDREFN DENDRO - CYFFREDINOL	19
21. Y Weithdrefn Dendro Gyffredinol	19
22. Agor y Tendrau	20
23. Eglurhad Ar Ôl y Tendr / Dyfynbris	20
24. Caffael ar gyfer Prosiectau a Ariennir gan ESF / ERDF / EAGGF	21
25. Cyllid ERDF	21
26. Deddfwriaeth yr UE	21
CYFARWYDDEBAU CAFFAEL EWROPEAIDD – CANLLAW CRYNO	21
27. Rheolau'r UE	21
28. Beth yw Deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus?	22
29. Gweithdrefnau i'w Dilyn	22
30. Nwyddau	23
31. Rheoliadau'r UE ar gyfer Dewis Tendrau a Gweithdrefnau Gwobrwyo	23
32. Manylebau a Safonau Technegol	24
ASESU TENDRAU	24
33. Dulliau Asesu	24
34. Cadw Cofnodion	24
35. Beth os bydd cyflenwr yn cwyno?	25
36. Datganiad Polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Moesegol.	25
37. Yr Economi Leol	25
TRAFODION CARDIAU PRYNU	25
38. Gwybodaeth am y Cerdyn Prynu	25
CAEL HYD I NWDYDDAU	26
39. Diffiniad o Cael hyd i	26
40. Contractau Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru (HEPCW)	26
41. Cyfrifiaduron a Phrynu Cysylltiedig â Chyfrifiaduron	26
42. Contractau Adeiladu	26
43. Contractau a Drafodwyd yn Genedlaethol – Gwerth Cymru	26
FFACTORAU SY'N BERTHNASOL I BENDERFYNIADAU PRYNU	27
44. Statws y Cwmnïau sydd Ynghlwm	27
45. Cyfarpar a Gynigir	27
46. Costau Gweithredu	27



47.	Cefnogaeth y Cynnyrch	27
48.	Trefniadau Disodli	27
49.	Strategol a Strwythurol	27
50.	Costau Di-oed Caffaeliad	28
51.	Cyflawni	28
52.	Cynaliadwyedd	28
53.	Cael Hyd i Un Cyflenwr	28
54.	Gwerthusiad o'r Dyfynbris / Tendr	29
55.	Rheoliadau Cyffredinol	29
CYNGOR AR ARFARNU TENDRAU'N FASNACHOL		30
56.	Tendr yr UE	30
57.	Manyleb	30
58.	Cyfrifoldeb ar gyfer Manyleb	30
59.	Dewis Cyflenwyr	30
60.	Y Ddogfen Gwahoddiad i Dendro	30
61.	Anfon y Gwahoddiad i Dendro	30
62.	Dychwelyd Tendr y Cyflenwr	31
63.	Agor y Tendrau: Y Panel	31
64.	Agor y Tendrau: Y Weithdrefn	31
65.	Arfarnu'r Tendrau: Technegol	31
66.	Arfarnu'r Tendrau: Masnachol	31
67.	Dewis Cyflenwr	31
68.	Ail-dendro	31
69.	Trafodaeth ar ôl y Tendr	31
70.	Cwblhau'r Contract	31
71.	Y Contract	31
72.	Cadw Dogfennaeth	32
73.	Cymorth a Chyngor	32
DEILIAID SWYDDI A MANYLION CYSWLLT YR ADRAN GAFFAEL		32
Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill		32
Goblygiadau o ran Adnoddau		33
Asesiad o Effaith		34
Awdur(on) y Polisi:		35
Rheoli Fersiynau'r Ddogfen		35



Prifysgol Cymru

Y Drindod Dewi Sant

University of Wales

Trinity Saint David

ATODIAD A – SAITH EGWYDDOR BYWYD CYHOEDDUS	36
ATODIAD B – COD YMDDYGIAD MEWN PERTHYNAS AG ANRHEGION / LLETYGARWCH	37
ANRHEGION, CYMWYNASAU A RHODDION	37
ATODIAD C – ASESAD RISG CYNALIADWY LLAWN	38



DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

1. Cefndir

- 1.1. Corfforaeth siartredig yw'r Brifysgol. Caiff ei strwythur llywodraethu ei osod yn offerynnau ei chorfforiad (siarter a statudau). Dim ond y Cyfrin Gyngor all ddiwygio'r Siarter a'r statudau. Yn ogystal, cynhwysir darpariaethau pellach yn Ordinhadau'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn atebol trwy Gyngor y Brifysgol sy'n gyfrifol yn y pen draw am reolaeth a gweinyddiaeth y Brifysgol.
- 1.2. Mae holl drafodion busnes y Brifysgol yn destun:
 - i) Siarter, Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol;
 - ii) Y Memorandwm Ariannol rhwng y Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Mae'r Memorandwm Ariannol yn gosod telerau ac amodau gwneud y grant. Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am sicrhau bod amodau'r grant yn cael eu bodloni. Fel rhan o'r broses hon, rhaid i'r Brifysgol lynu wrth God Ymarfer Archwilio'r corff ariannu sy'n gofyn iddi gael systemau cadarn ar waith o ran rheolaeth ariannol a rheoli. Ffurfa Rheoliadau Ariannol y Brifysgol ran o'r system atebolrwydd gyffredinol hon;
 - iii) Erthyglau'r Llywodraeth (ar gyfer trafodion cysylltiedig â Busnes Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant).

2. Statws y Polisi Caffael

- 2.1. Mae'r ddogfen hon yn nodi Polisi Caffael y Brifysgol. Manyla'r gweithdrefnau'n gywir sut bydd y polisi'n cael ei weithredu.
- 2.2. Mae'r polisi hwn yn israddol i Siarter, Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol (ac Erthyglau'r Llywodraeth ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig â TUCC) ac i unrhyw gyfyngiadau ym Memorandwm Ariannol y Brifysgol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Atebolrwydd a Chod Ymarfer ar gyfer Archwilio'r Cyngor Cyllido.
- 2.3. Mae'r Brifysgol yn ymroi i fynd ar drywydd rhagoriaeth a mabwysiadu'r arfer gorau cyfredol yn y swyddogaeth brynu.
- 2.4. Ceisia'r Brifysgol sicrhau bod ei gweithgareddau gweithredol yn gyson â'r Datganiad o Fwriad ac yn gefnogol ohono ynghyd a'i werthoedd a'i nodau cysylltiedig, a'u bod yn gyson â'r safbwyntiau polisi a gymerwyd gan y Brifysgol ar faterion Cyfle Cyfartal a materion Amgylcheddol. Felly, dymuna'r Brifysgol sicrhau bod y broses prynu nwyddau'n sensitif i ffactorau amgylcheddol a'i bod yn dangos ymrwymiad i'r rhanbarthau, trwy gaffael nwyddau gan gwmnïau lleol ble bynnag y bo'n bosibl a'i bod yn hwyluso cyfle cyfartal trwy fesurau cydymffurfiaeth â'r contract. Fodd bynnag, bydd yr egwyddorion prynu hyn ond yn cael eu mabwysiadu lle gellir cyflawni gwerth am arian.
- 2.5. Gan adrodd i'r Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio), rhoddwyd cyfrifoldeb cyffredinol i'r Cyfarwyddwr Cyllid am y swyddogaeth ledled y Brifysgol. Bydd Rheolwr Caffael y Brifysgol yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cyllid am reolaeth y swyddogaeth o ddydd i ddydd.
- 2.6. Rhaid cydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol a'r gweithdrefnau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.



PRYNU

3. Y Swyddogaeth Brynu

At ei gilydd, datganolir y swyddogaeth Brynu, gyda'r awdurdod i brynu'n cael ei roi i Ddeiliaid Cyllideb o fewn y fframwaith trothwy a amodir yn y Rheoliadau Ariannol. Mae'r Rheolwr Caffael yn uniongyrchol gyfrifol i'r Cyfarwyddwr Cyllid. Ei brif/phrif ddiben yw cynhyrchu, cynghori a chydlynu gweithrediad Strategaeth, Polisi a Gweithdrefnau Caffael y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu contract. Ymchwil i nwyddau/gwasanaeth; strategaeth y contract; arfarnu a chymeradwyo'r cyflenwr; rheoli cyflenwyr a chontractau.
- Proses y tendr. Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennaeth; gwerthuso'r tendr; argymhellion dyfarnu contractau; cais y gyfarwydddeb caffael Ewropeaidd.
- Materion gweithredol. Cyngor ar brynu a chanllawiau ar gaffael nwyddau/gwasanaethau; cymorth gyda rhoi manylebau at ei gilydd; dyfynbrisiau; cael hyd i werthwyr; trafodaethau; cynnal a chadw'r llawlyfr prynu a'r canllawiau cysylltiedig â'r catalog prynu.
- Prynu gwerth isel. Mae system cerdyn prynu i gaffael nwyddau/gwasanaethau gwerth isel ar waith.
- Y Consortiwm Pwrcasu. Mae'r Brifysgol yn aelod o Gonsortiwm Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru (HEPCW).

AMCANION PRYNU

4. Amcanion Cyffredinol

4.1. Gofyn i'r holl Ddeiliaid Cyllideb ar gyfer holl ganolfannau cyllideb / deiliaid grant, ni waeth beth yw'r ffynhonnell arian, i gaffael cyflenwadau, gwasanaethau a chyfarpar am y gost isaf posibl sy'n gyson â'r gofynion ansawdd a chyflawni ac yn unol ag arfer busnes cadarn. O blith y ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a geir gwerth am arian, lle bo'n briodol, mae:

- Costau prynu
- Addasrwydd i'r diben
- Cadernid y pris (e.e. sefydlog neu fel arall)
- Risgiau a chostau cyfnewid arian tramor
- Telerau talu
- Hyd y warantî neu gyfnod cynnal a chadw am ddim
- Costau rhedeg (e.e. darnau sbâr, eitemau traul, tanwydd, dŵr a thrydan)
- Cost unrhyw addasiadau adeiladu neu wasanaethau angenrheidiol
- Gwerthiant tebygol neu werth sgrap
- Ystyried costau bywyd cyfan cynhyrchion.

4.2. Wrth gael hyd i nwyddau/gwasanaethau, ystyried y dewis amgylcheddol ymarferol gorau er mwyn i'r cynhyrchion a brynir ddarparu'r fantais fwyaf neu'r difrod lleiaf i'r amgylchedd yn gyfan, am gostau derbyniol yn y tymor hir a byr.

4.3. Er mwyn gweithredu Polisi Caffael Cynaliadwy, ymgymryd ag Asesiad Risg Cynaliadwy (ARC) lle bo angen (gweler Atodiad C).



- 4.4. Sicrhau bod yr holl staff prynu dynodedig wedi'u hyfforddi'n addas neu'n gymwys i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaeth yn broffesiynol ac yn effeithiol.
- 4.5. Sicrhau bod yr holl staff prynu dynodedig yn darparu (lle bo angen) yr adroddiadau angenrheidiol i'r Cyfarwyddwr Cyllid er mwyn galluogi ar gyfer gwerthuso perfformiad prynu a chyflwyno adroddiadau cyfunol i'r Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) ac/neu CCAUC pan fydd angen.
- 4.6. Cefnogi'n llawn a datblygu ymhellach berthnasau cydweithredol rhwng y Brifysgol a Chonsortium Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru ac unrhyw Gonsortium Pwrcasu arall y mae'r Brifysgol yn aelod ohono er mwyn cynyddu'r fantais i bawb.
- 4.7. Cydymffurfio bob amser gyda Chyfarwyddbau a Rheoliadau Caffael y Gymuned Ewropeaidd.
- 4.8. Cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol gan gynnwys rhai'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; Rheoliadau a gyhoeddir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a deddfwriaeth diogelwch perthnasol arall (e.e. y Ddeddf Bwyd).
- 4.9. Bydd prynu'n cael ei wneud ar sail 'mewn pryd' er mwyn atal cynnal lefelau mawr diangen o stoc.
- 4.10. Cydymffurfio â thasg Llywodraeth Cynulliad Cymru o fabwysiadu'r Pecyn Cymorth Caffael Cynaliadwy.

5. Amcanion Amgylcheddol

Wrth fynd ar drywydd amcanion y Brifysgol o ran diogelwch a gwelliant amgylcheddol, cydnabyddwn yr angen hollbwysig i weithredu fel model rôl, trwy gynnal gweithgareddau prynu yn amgylcheddol gygrifol. O ran gwerth gorau a chyfraith caffael, byddwn felly'n ymdrechu i:

- 5.1. Gydymffurfio â'r holl deddfwriaeth amgylcheddol a chaffael perthnasol.
- 5.2. Sicrhau ein bod ni ond yn prynu nwyddau a gwasanaethau cwbl angenrheidiol.
- 5.3. Annog uwchraddio, aildddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu cynhyrchion.
- 5.4. Nodi offer sy'n effeithlon o ran dŵr ac ynni o ran eu gwneuthuriad a'u gweithrediad.
- 5.5. Osgoi defnyddio cemegau peryglus lle mae dewis llai niweidiol ar gael yn briodol.
- 5.6. Annog prynu nwyddau sy'n cynnwys deunyddiau wedi'u hailgylchu i gefnogi'r farchnad ar gyfer deunydd eildro.
- 5.7. Lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol heb fod yn adnewyddadwy gwreiddiol a chefnogi'r defnydd o ffynonellau cynaliadwy.
- 5.8. Ceisio'n weithgar i brynu coed o ffynonellau cyfreithiol a chynaliadwy.
- 5.9. Cefnogi'r defnydd o fwyd di-GM, tymhorol ac organig.
- 5.10. Cefnogi safonau lles anifeiliaid uchel.
- 5.11. Cefnogi Masnach Deg a phrynu'n foesebol.
- 5.12. Ystyried costau bywyd cyfan y cynhyrchion.



6. Cyflawni Amcanion Amgylcheddol

Er mwyn cyflawni ein hamcanion byddwn yn gwneud y canlynol:

- 6.1 Gweithio gyda'n cyflenwyr i ymchwilio a chyflwyno prosesau a chynhyrchion cyfeillgar i'r amgylchedd.
- 6.2 Sicrhau bod ein cyflenwyr yn ymwybodol o'n Polisiâu Amgylcheddol Corfforaethol ac yn eu deall.
- 6.3 Adolygu'n gyson ein dull caffael ar gyfer categorïau gwariant sy'n cyflwyno risgiau amgylcheddol arwyddocaol.
- 6.4 Nodi, lle bo'n bosibl a lle bo'n rhesymol ymarferol, y defnydd o ddeunyddiau a chynhyrchion cyfeillgar i'r amgylchedd, yn enwedig mewn contractau lle mae risgiau amgylcheddol arwyddocaol wedi'u dynodi.
- 6.5 Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i gynhwysiant ym mhob manyleb, o gyfleuster i ddarparu gyflenwyr gyflwyno prisiau ar gyfer dewisiadau eraill sy'n ein helpu ni i weithredu'r Polisi Caffael Cynaliadwy hwn (dengys yn Atodiad C).
- 6.6 Sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gostau a manteision dewisiadau cyfeillgar i'r amgylchedd.
- 6.7 Sicrhau y caiff cymwysterau amgylcheddol y cyflenwyr eu hystyried ym mhroses arfarnu'r cyflenwr, yn enwedig mewn contractau lle mae risgiau amgylcheddol arwyddocaol wedi'u nodi.
- 6.8 Sicrhau lle bo'n briodol, bod meini prawf amgylcheddol yn cael eu cynnwys wrth ddyfarnu contractau.
- 6.9 Monitro perfformiad ein prynu amgylcheddol a cheisio gwelliant parhaus.
- 6.10 Darparu hyfforddiant priodol i Ddeiliaid Cyllideb a staff caffael i weithredu'r Polisi Caffael Cynaliadwy hwn (a ddengys yn Atodiad C).

STRATEGAETH BRYNU

7. Nod y Strategaeth

- 7.1 Mae'r Strategaeth Brynu'n darparu rhestr o dargedau'r swyddogaeth o ran pob agwedd ar ei gwasanaeth i'r Brifysgol. Nod cyffredinol y strategaeth yw darparu swyddogaeth gaffael gost effeithiol sy'n cyflawni gwerth am arian ym mhob agwedd ar ei gweithrediad er boddhad llwyr y cwsmer.
- 7.2 Bydd yn ofynnol i bob deiliad cyllideb cymeradwy gyflawni eu dyletswyddau prynu yn unol â'r targedau a restrir yn y strategaeth i sicrhau bod safonau gwasanaeth a pherfformiad cydlynol yn cael eu cyflawni.
- 7.3 Mae perfformiad y Rheolwr Caffael a phrynu'r Brifysgol yn erbyn targedau'r strategaeth yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol y mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn gofyn amdano.



TARGEDAU PRYNU

8. Safonau Prynu

Mae'r rhain yn gosod y safon ar gyfer perfformiad staff y Brifysgol ac yn cynnwys dwy elfen:

- Sylfeini Prynu
- Arfer Prynu

SYLFEINI PRYNU

Cydran	Nod
Dull canolbwyntio ar brynu adnoddau	Dadansoddiad Pareto sy'n canolbwyntio adnoddau ar feysydd gwariant uchel.
Mae dadansoddiad gwariant ar gael	Yn ôl cyflenwr, eitem a nwydd
Amcan Caffael	Cyfanswm cost caffael isaf
Safon Broffesiynol	Cyrsiau CIPS arbenigol neu wedi'i hyfforddi i lefel NVQ

ARFER CAFFAEL

Cydran	Nod
Menter i gyfuno gwariant	Gwariant mawr trwy Gonsortia a phrynwyr arbenigol
Manyleb	Manyleb lawn yn hytrach na tharddiad brand
Dewis cyflenwr	Tendr cystadleuol, cyflenwyr a chyflenwadau cymeradwy ac arfarnu gwerthwyr lle bo'n briodol
Asesu Cyflenwyr	Rheoli contract ffurfiol lle bo'n briodol, diffygion, danfoniadau hwyr a phroblemau.



- 8.1. Mae'r ddogfen hon yn cwmpasu pob agwedd ar y cylch caffael gan gynnwys:
- Manyleb
 - Cael hyd i
 - Ymholi a Thendro
 - Gwerthuso Dyfynbrisiau a Thendrau
 - Trafod
 - Archebu a Dyfarnu Contractau
 - Rheoli'r Archeb Prynu
 - Cyfarwyddyd Cyffredinol ar Anfonebu a Thalu
- 8.2. Rhaid i'r ddogfen gael ei defnyddio mewn cydweithrediad â Gweithdrefnau a Rheoliadau Ariannol y Brifysgol.
- 8.3. Gellir cael copi o'r ddogfen trwy gysylltu â Rheolwr Caffael y Brifysgol. Mae copi ar-lein hefyd.

CYFRIFOLDEBAU'R PRYNWYR AWDURDODEDIG

9. Cyfrifoldebau

- 9.1. Rhaid i Ddeiliaid Cyllideb y Brifysgol gydymffurfio â phob agwedd ar Bolisi Caffael a Gweithdrefnau a Rheoliadau Ariannol y Brifysgol bob amser.
- 9.2. Rhaid i Reolwr Caffael y Brifysgol fod wedi'i hyfforddi'n briodol neu feddu ar gymwysterau priodol i gyflawni'r swyddogaeth.
- 9.3. Bydd hyn naill ai'n golygu aelodaeth gorfforaethol neu aelodaeth gan fyfyrwyr o'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi (mae aelodaeth myfyrwyr yn golygu astudiaeth barhaus er mwyn cyrraedd aelodaeth lawn neu gyrhaeddiad cymwysterau prynu eraill, fel NVQ Lefel 2, 3 neu 4).

COD MOESEG

10. Rhagarweiniad

Mae'r cod moesegol yn seiliedig ar yr un a fabwysiadwyd gan y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi (CIPS), mae crynodeb ohono wedi'i osod isod.

11. Praeseptau

Ni fydd y staff byth yn defnyddio'u hawdurdod neu swydd er budd personol a byddant yn ceisio cynnal a gwella statws y Brifysgol trwy:

- gynnal safon hygyrdd bendant yn eu holl berthnasau busnes yn y Brifysgol a'r tu allan iddi.
- meithrin y safonau gallu proffesiynol uchaf posibl ymhlith y rhai y maen nhw'n gyfrifol amdanynt.
- gwneud y gorau o'r defnydd o adnoddau y maen nhw'n gyfrifol amdanynt i ddarparu'r uchafswm budd i'r Brifysgol.



12. Canllawiau

- 12.1. Wrth roi'r prae-septau hyn ar waith, dylai'r staff ddilyn y canllawiau a osodwyd isod:
- **Datgan Budd** – Dylid datgan unrhyw fudd personol, a allai amharu neu a allai gael ei ystyried yn rhesymol gan bobl eraill i amharu ar ddiueddrwydd staff mewn unrhyw fater sy'n berthnasol i'w dyletswyddau. Mae budd personol yn cynnwys budd teulu a ffrindiau uniongyrchol.
 - **Cyfrinachedd a Chywirdeb Gwybodaeth** – Dylid parchu cyfrinachedd y wybodaeth a gafwyd yn ystod swydd ac ni ddylid byth ei ddefnyddio er budd personol: dylai'r wybodaeth a roddwyd yn ystod swydd fod yn wir ac yn deg a pheidio byth â chael ei ddylunio i gamarwain.
 - **Cystadleuaeth** – Wrth ddwyn i gof y manteision i'r Brifysgol o gynnal perthynas barhaus gyda chyflenwr, dylid osgoi unrhyw drefniant a allai atal gweithrediad effeithiol cystadleuaeth deg yn y tymor hir.
 - **Anrhegion Busnes** – Gweler Atodiad B am ganllawiau ar ba gamau dylid eu cymryd. Gellir derbyn anrhegion busnes, o werth cynhenid bach iawn megis dyddiaduron busnes a chalendrau. Dylid gwrthod eitemau o natur personol ar gyfer defnydd tŷ neu breifat.
 - **Lletygarwch** - Mae lletygarwch cymedrol yn gwrteisi a dderbynnir mewn perthynas fusnes. Fodd bynnag, ni ddylai'r derbynnnydd ei alluogi ei hun i fod mewn sefyllfa lle gallai ef neu hi gael ei (h)ystyried gan bobl eraill i fod wedi'u dylanwadu i wneud penderfyniad busnes o ganlyniad i dderbyn y lletygarwch hwnnw. Ni ddylai amledd a graddfa'r lletygarwch fod yn sylweddol fwy na'r hyn y mae'r Brifysgol yn debygol o'i roi'n ôl.
- 12.2. Pan nad yw hi'n hawdd penderfynu rhwng yr hyn sy'n dderbyniol ai peidio o ran anrhegion a lletygarwch, dylid gwrthod y cynnig neu gael cyngor aelod o staff uwch neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol neu'r Pennaeth.
- 12.3. Gweler Atodiad B am y datganiad llawn ar dderbyn anrhegion a lletygarwch.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU DEILIAID Y GYLLIDEB

13. Sail Cyfrifyddu

- 13.1. Mae gan Ddeiliaid y Gyllideb rymoedd wedi'u dirprwyo iddynt fynd i gostau yn strategaeth gyffredinol y Brifysgol (fel y gwelant yn ddoeth, gan roi ystyriaeth ddyledus i effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac economi), ond yn amodol ar y gweithdrefnau canlynol.
- 13.2. Terfynau Cymeradwyo ar gyfer Gwariant yn ymwneud â:
- | Terfynau Cymeradwyo | ar eitemau unigol, prosiectau neu brydlesi |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Cyllid | Hyd at £10,000 |
| Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) | £10,001 i £100,000 |
| Pwyllgor Adnoddau | Dros £100,000 |
| Cyngor | Dros £500,000 |
- 13.3. Dyletswydd yr holl Ddeiliaid Cyllideb yw sicrhau bod pob aelod o staff yn eu cyfadrannau / adrannau'n ymwybodol o'r holl reoliadau, cyfarwyddiadau a chanllawiau a gyhoeddir sy'n ymwneud â nhw a'u bod yn dilyn y rheoliadau, y cyfarwyddiadau a'r canllawiau a grybwyllwyd uchod yn unol â hynny. Rhaid i Ddeiliaid y Gyllideb hefyd roi gwybod i'r Dirprwy Is-ganghellor



neu'r Cyfarwyddwr Cyllid yn syth am unrhyw afreoleidd-dra ariannol neu amheuaeth o afreoleidd-dra sy'n dod i'w sylw.

Y WEITHDREFN BRYNU AC ARCHEBU

Bydd y Weithdrefn Brynu yn unol â'r tabl canlynol:

Categori	Gwerth	Gweithdrefn Brynu ac Awdurdodiad
1	O dan £2,000	Nid oes angen dyfynbris Awdurdodiad Y Pennaeth Adran neu'r deiliad cyllideb dirprwyedig
2	£2,001 - £5,000	O leiaf tri dyfynbris, ar lafar ac/neu ar bapur, rhaid cwblhau'r cofnod dyfynbrisiau Awdurdodiad Y Pennaeth Adran neu'r deiliad cyllideb dirprwyedig
3	£5,001 - £25,000	O leiaf tri dyfynbris ysgrifenedig. Rhaid cwblhau'r cofnod dyfynbrisiau gyda'r ddogfen rheswm am ddewis cyflenwr. Awdurdodiad Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio)
4	£25,001 - £100,000	Rhaid i bryniant o dros £25,000 gydymffurfio â gweithdrefnau tendro cystadleuol ffurfiol y Brifysgol. Awdurdodiad Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio)
5	Dros £100,000	Rhaid i bryniant o dros £25,000 gydymffurfio â gweithdrefnau tendro cystadleuol ffurfiol y Brifysgol. Awdurdodiad Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) Pwyllgor Adnoddau
6	Dros £500,000	Rhaid i bryniant o dros £25,000 gydymffurfio â gweithdrefnau tendro cystadleuol ffurfiol y Brifysgol Awdurdodiad Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) Cyngor

SYLWCH FOD Y GWERTHOEDD A DDYFYNNIR I GYD YN GLIR O TAW



Rhaid nodi fod pob pryniant am nwyddau neu wasanaethau yr amcangyfrifir eu bod yn costio dros £173,934 ac ar gyfer gwaith o £4,348,350 yn destun cyfarwyddebau'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd a rhaid i'r tendrau gael eu hysbysebu ar hyd y Gymuned Ewropeaidd.

Gweler y Cyfarwyddebau Caffael Ewropeaidd – Canllaw Cryno i gael rhagor o wybodaeth.

Mae cytundebau caffael cydweithredol a sefydlwyd gan y Brifysgol, CCAUC, Gwerth Cymru, Swyddfa Masnach y Llywodraeth a Crescent Purchasing Consortium eisoes wedi'u tendro trwy broses gaffael archwiliadwy.

Felly, nid oes angen y gofyniad am ddyfynbrisiau / tendrau ac ati.

14. Eithriadau i'r Weithdrefn Archebu

14.1. Mae'r mathau canlynol o gyflenwadau'n barhaus ac felly nis oes angen Archeb Swyddogol:-

- Rhenti, trethi, nwy, trydan, dŵr, glo a rhenti ffôn.
- Anfonebau sy'n codi o ganlyniad i gais am wasanaethau milfeddygol.
- Anfonebau sy'n codi o ganlyniad i gynnal a chadw gwneuthuriad eiddo'r Brifysgol mewn argyfwng e.e. diogelu'r eiddo rhag lladrad, difrod gan dywydd neu ddifrod pellach, neu i wneud offer neu adeiladau'n ddiogel a fyddai fel arall yn ffynhonnell perygl/risg sylweddol.
- Adnewyddu tanysgrifiadau corfforaethol (h.y. nid personol) i gyrrff proffesiynol. Bydd angen archeb swyddogol ar danysgrifiadau newydd.
- Trafodion arian parod a cherdyn tanwydd y Brifysgol.
- Anfonebau sy'n codi o atgyweiriadau brys i gerbydau sy'n cludo staff / myfyrwyr y Brifysgol.
- Ffioedd Cofrestru BTEC, arholiadau a threfniadau rhyddfrait.
- Recriwtio a chostau meddygol yn ymwneud â recriwtio.
- Anfonebau sy'n codi o gontractau presennol h.y. y peiriannau llungopiö presennol, ffioedd cynnal meddalwedd a chaledwedd presennol, prydlesi car a fan presennol, contract glanhau a chasglu sbwriel. Bydd angen Archeb Swyddogol ar gontractau newydd.
- Yswiriant.
- Costau teithio – Llywodraethwyr.
- Lletygarwch mewnol gan ffreuturiau'r Brifysgol.
- Trafodion cerdyn prynu'r Brifysgol
- Ffioedd cyfreithiol.

14.2. Er mwyn hwyluso gweithrediad, gallai'r canlynol gael eu harchebu trwy archebion cyffredinol ar yr amod bod cyfnod amser penodedig wedi'i ysgrifennu ar yr archeb.

- Tacsis i fyfyrwyr.
- Ffioedd gofal plant ar gyfer y Gwasanaethau Hyfforddiant.
- Darpariaeth Ffreutur.
- Diogelwch y Campysau.

Sylwch



- 14.3. Defnyddir archebion cyffredinol dim ond o gael cytundeb ymlaen llaw'r Cyfarwyddwr Cyllid. Dylai'r holl archebion cyffredinol ddangos disgrifiad llawn o'r nwyddau / gwasanaethau a'r amserlenni cysylltiedig.
- 14.4. Rhaid parhau i gadw at y Rheoliadau Ariannol wrth godi archebion cyffredinol.
- 14.5. Rhaid cadw cofnodion cywir er mwyn sicrhau bod archebion cyffredinol ychwanegol yn cael eu codi pan fo'r arian sydd ar gael ar yr archeb gyffredinol bresennol yn annigonol i gwmpasu'r gofynion. Bydd unrhyw anfonebau a ddaw i law sy'n fwy na'r archeb gyffredinol yn cael eu trin fel cadarnhad.

CAFFAEL CYNALIADWY

15. Caffael Cynaliadwy

- 15.1. Mae gan y Deiliaid Cyllideb gyfrifoldeb i gaffael nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy. Er mwyn gwneud hyn, bydd y Brifysgol yn defnyddio Asesiad Risg Cynaliadwy er mwyn sicrhau bod materion Amgylcheddol, Cymdeithasol ac Economaidd (cynaliadwyedd) yn cael eu hasesu, eu deall a'u rheoli wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau. I ddechrau, mae'r asesiad yn cynnwys dynodi effeithiau allweddol ar yr amgylchedd, y gymdeithas a'r economi. Wedyn, mae canlyniadau'r asesiad hwn yn cynorthwyo wrth gwblhau cyfres o gwestiynau sy'n codi'r prif faterion cynaliadwyedd mewn unrhyw weithgaredd caffael. Mae'r atebion i'r cwestiynau hyn yn gysylltiedig â chyfres o isafswm gofynion y dylid eu rhoi ar waith yn y prosesau caffael er mwyn lleihau effaith andwyol/gwella cynaliadwyedd o fewn y contract a chyfrannu at amcanion cynaliadwyedd y Brifysgol.

Yr anghenion Busnes / Addysgol i'w cadarnhau:

- Oes cyfle i beidio â phrynu hwn o gwbl? A allai rhywbeth gael ei aildefnyddio, neu a fyddai'n bosibl fynd hebdo?
- Allwch chi ailfeddwl yr angen? Er enghraifft, newid i wasanaeth a ddarperir gan sefydliad allanol yn hytrach na darparu'r gwasanaeth yn fewnol.
- A gafwyd unrhyw ddatblygiadau / arloesiadau technegol a fyddai'n cynnig gwell canlyniad? Er enghraifft, cynnyrch amldefnydd a all sganio, copïo ac argraffu yn hytrach na thri pheiriant ar wahân.

16. Effeithiau allweddol yn ystod oes cynhyrchion

Mae prif effeithiau cynaliadwyedd cynnyrch generig wedi'u nodi isod, ond nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

- Beth yw'r prif ddeunyddiau crai?
 - Beth yw'r prif faterion wrth gynhyrchu?
 - Beth yw'r prif faterion i chi reoli'r defnydd?
 - Beth yw'r prif faterion i chi ar ddiwedd ei oes / adeg gwaredu?
- 16.1. Mae Atodiad C yn rhoi syniad o'r asesiad risg cynaliadwy llawn y mae angen ei gwblhau ar gyfer rhai pryniannau. Gweler y Rheolwr Caffael am Gymorth.

17. Costio Bywyd Cyfan

- 17.1. Dylid defnyddio'r canllawiau canlynol wrth asesu gofynion. Ffurfia'r rhain ran o broses yn dwyn y teitl costio o'r "crud i'r bedd".
 - Cost danfon a gosod.
 - Costau sefydlu.
 - Costau cynnal a chadw.



- Cost darnau sbâr / disodli.
 - Cost gwaredu a disodli yn y pen draw.
 - Costau rhedeg / ynni
 - Costau hyfforddi.
 - Costau adnewyddu (sy'n gysylltiedig ag unrhyw waith adeiladu)
 - Costau llafur (h.y. amrywiadau mewn costau llafur rhwng systemau neu weithredu'r offer).
- 17.2. Unrhyw werthusiad posibl o'r gwahaniaeth mewn cost a gallu i ychwanegu at bob system neu ddarn o offer / meddalwedd sy'n cael ei werthuso'n ddiweddarach.
- 17.3. Unrhyw archwiliad posibl i sicrhau bod gan gyflenwr dethol y gallu i gyflenwi a chynnal y system yn effeithiol. Cynghorir archwiliad ariannol gan yr Adran Gyllid ynghyd ag ymarfer i gaffael geiradaon gan ddefnyddwyr a enwyd ganddynt.
- 17.4. Crynodeb trylwyr o gost ddatganedig yr offer / gwasanaeth gan bob tendrwr.
- 17.5. Arfarniad trwyadl o effaith yr offer ac/neu'r gwasanaethau a gynigir gan bob tendrwr ar yr amgylchedd. Gallai'r arfarniad hwn ystyried; ffynhonnell deunydd yr adeiladwaith, defnydd o ynni, allyriadau niweidiol, arferion gwaith, deunyddiau a ddefnyddiwyd wrth gynnal a chadw / gweithredu ac ati.
- 17.6. Y Telerau ac Amodau Contract a gynigir gan bob cynigydd gan sicrhau bod meysydd fel warantî, perfformiad y cyfarpar neu warantau lefel gwasanaeth, telerau talu, argaeledd darnau sbâr ac yswiriant danfon wedi'u cynnwys.
- 17.7. Mae'r enghreifftiau a roddwyd uchod yn cwmpasu mwyafrif yr agweddau sydd ynghlwm wrth wneud y penderfyniad i brynu ac mae'n amlwg y byddai'r penderfyniad i osod busnes gydag unrhyw gynigydd yn seiliedig ar ba gynnig sy'n cynrychioli'r gwerth gorau am arian, gan ystyried pob ffactor.



Cyflwynir i'r Adran Gyllid

(dyddiad wedi'i stampio ar y dderbynneb)

**Adolygir yr archebion gan y Cyfrifydd Rheoli ar gyfer
Codio, argaeledd y Gyllideb a rhesymoldeb.**

Prosesir yr archeb gan Gyllid.

Codir yr archeb swyddogol gan y System Gyllid

Dosberthir yr archeb gan Gyllid i'r Cyflenwr.

**Caiff yr archebion eu hanfon drwy e-bost, eu ffacsio os
oes modd neu eu postio'n ail ddsbarth y diwrnod nesaf**

**Fel rheol, ni fydd y broses o X i Y yn cymryd mwy na 3
diwrnod gwaith.**

X



Y

PRYNIANNAU GWERTH BACH A MANYLEB Y PRYNIANT

18. Gweithdrefnau Arian Parod

- 18.1. Ar gyfer pob cais am arian parod, mae angen llenwi taleb arian parod sy'n cynnwys: i bwy y rhoddwyd y taliad, pwrpas y gwariant a pham mae angen arian parod (mae angen disgrifiad llawn ar hyn, h.y. Petrol i'r bws mini ar gyfer taith addysgiadol i'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd, nid yw bws mini'r Brifysgol ar gael). Yn ogystal, mae angen ychwanegu cod gwariant dilys. Bydd angen i ddeiliad y gyllideb lofnodi'r talebau arian parod.
- 18.2. Lle bo'n bosibl, dylid cael arian parod cyn gwneud y trafodyn, ond gallai fod yn rhesymol ad-dalu yn dilyn y digwyddiad – ar yr amod bod yr arian ar gael. Mewn rhai achosion, gallai fod rhaid ad-dalu unigolion trwy siec.



- 18.3. Mae angen derbynneb am bob taliad a wneir ymlaen llaw, a ddylai fod ynghlwm â'r daleb arian parod. Dylid gwneud pob ymdrech i gael derbynneb TAW cywir.

19. Manylebau

- 19.1. Caiff manylebau perfformiad eu ffafrio yn lle'r rhai sy'n datgan brand, neu'n cyfyngu i gyflenwr penodol. Gellir cael help ac arweiniad ar ddatblygu manyleb briodol gan y Rheolwr Caffael. Dylid ond nodi Brandiau a Phatentau fel eithriad, pan nad yw'n ymarferol nodi'r gofyniad mewn termau technegol neu berfformiad. Dylai'r geiriau "neu gyfatebol" gyd-fynd â'r cyfeiriad at y brand.
- 19.2. Rhaid rhoi gwybod i'r adran Ystadau ym MHOB achos am y bwriad i brynu offer trydanol a rhaid rhoi gwybod i'r adran Systemau Gwybodaeth am y bwriad i brynu caledwedd a meddalwedd cysylltiedig â TG.

Y WEITHDREFN DYFYNBRISIAU - CYFFREDINOL

20. Y Weithdrefn Dyfynbrisiau Gyffredinol

- 20.1. Dylai Nwyddau neu Wasanaethau gael eu dynodi gan ddeiliad y gyllideb gan nodi amcangyfrif gwerth.
- 20.2. Yn ystod y cam dynodi hwn, dylid nodi y dylai amcangyfrif gwerth y nwyddau neu'r gwasanaethau fod yn berthnasol i werth cronedig nwyddau a gwasanaethau tebyg sy'n ofynnol dros flwyddyn ariannol, nid dim ond ar gyfer pryniannau un tro.
- 20.3. Bydd yr amcangyfrif yn cael ei ddefnyddio i ddynodi'r gweithdrefnau i'w dilyn (h.y. dyfynbris neu dendr).
- 20.4. Os ydy'r amcangyfrif gwerth yn debygol o fod dros £5,000 ond yn llai na £25,000, dylai deiliad y gyllideb ymgynghori â'r Rheolwr Caffael yn y lle cyntaf. Gyda'i gilydd, bydd deiliad y gyllideb a'r Rheolwr Caffael yn llunio manyleb. Os na fydd Deiliad y Gyllideb yn defnyddio gwasanaethau'r Rheolwr Caffael, yna rhaid iddynt ddarparu copïau o dri dyfynbris o leiaf y maen nhw wedi'u cael i'r Rheolwr Caffael.
- 20.5. Bydd y Rheolwr Caffael yn ymgorffori'r fanyleb mewn Gwahoddiad i Gynnig Dyfynbris sy'n benodol i'r gofynion a bydd Cyfeirnod Ymarfer Cynnig Dyfynbris yn cael ei glustnodi.
- 20.6. Ble bynnag y bo'n bosibl, bydd y cyflenwyr yn cael eu dynodi o'r rhai sydd wedi cofrestru gyda HEPCW, GwerthwchiGymru, Crescent Purchasing Consortium a Crown Commercial yn y lle cyntaf.
- 20.7. Os na ellir canfod cyflenwyr addas neu nifer gyfyngedig o gyflenwyr trwy ddefnyddio'r uchod, bydd cyflenwyr eraill yn cael eu hystyried.
- 20.8. I bob un o'r cyflenwyr dethol (isafswm o 4), bydd y Rheolwr Caffael yn anfon y Gwahoddiad i Gynnig Dyfynbris gyda dyddiad cau i ddychwelyd dogfennau. Os na ellir canfod pedwar cyflenwr, bydd angen tystiolaeth ddogfennol i ddangos y gwnaed pob ymdrech i ddod o hyd i gyflenwyr amgen.
- 20.9. Dylid dychwelyd pob gwahoddiad i gynnig dyfynbris i'r Rheolwr Caffael a'u cadw yn y Swyddfa Brynu tan y dyddiad cau.
- 20.10. Wrth dderbyn dyfynbrisiau, hwyrach y caniateir diwrnod o ewyllys da ar gyfer oedi yn y post ac ati. Dan amgylchiadau eithriadol, lle mae angen derbyn dyfynbrisiau'n hwyr, rhaid cofnodi'n glir y rheswm am dderbyn.



- 20.11. Os daw llai na thri dyfynbris i law, gallai'r Rheolwr Caffael a'r deiliad cyllideb perthnasol fwrw ati i ddadansoddi'r dyfynbrisiau sy'n weddill ar yr amod ei fod/bod yn fodlon bod modd cyrraedd y gwerth gorau o hyd; os nad yw hyn yn bosibl ac os oes digon o amser, dylid ailgyhoeddi'r cynnig dyfynbris i gyflenwyr ychwanegol.
- 20.12. Ar ôl y dyddiad cau, bydd y Rheolwr Caffael, trwy ymgynghori â'r deiliad cyllideb priodol, yn llunio argymhelliad o ran pa gwmni y dylid dyfarnu'r contract iddo. Rhaid ystyried cost gymharol, ansawdd y nwyddau / gwasanaeth a'r wybodaeth am y cyflenwr wrth roi'r argymhellion at ei gilydd.
- 20.13. Dylid gosod archeb swyddogol am y nwyddau / gwasanaethau a dendrwyd gan ddeiliad y gyllideb, gan ddyfynnu Cyfeirnod y Dyfynbris.
- 20.14. Bydd y Rheolwr Caffael yn cadw holl ddogfennaeth y dyfynbris am gyfnod o chwe blynedd.

Y WEITHDREFN DENDRO - CYFFREDINOL

21. Y Weithdrefn Dendro Gyffredinol

- 21.1. Dylid nodi Nwyddau neu Wasanaethau gofynnol gan ddeiliad y gyllideb a gosod amcangyfrif gwerth.
- 21.2. Os ydy'r amcangyfrif gwerth yn debygol o fod dros £25,001, bydd deiliad y gyllideb yn ymgynghori â'r Rheolwr Caffael yn y lle cyntaf. Bydd deiliad y gyllideb a'r Rheolwr Prynu'n llunio manyleb ar y cyd.
- 21.3. Bydd y Rheolwr Caffael yn ymgorffori hyn mewn Gwahoddiad i Dendro, a bydd rhif contract yn cael ei glustnodi.
- 21.4. Ble bynnag y bo'n bosibl, bydd cyflenwyr yn cael eu dynodi gan HEPCW, Gwerthwch i Gymru, Crescent Purchasing Consortium a Crown Commercial yn y lle cyntaf.
- 21.5. Os na ellir canfod cyflenwyr addas, neu ddim ond nifer gyfyngedig o gyflenwyr (isafswm o bedwar), gyda'r cyflenwyr uchod, hwyrach yr ystyrir llwybrau eraill.
- 21.6. Lle gofynnwyd am gyfraddau Swyddfa Masnach y Llywodraeth, ceir cadarnhad gan y Swyddfa honno i roi sicrwydd bod y cyfraddau a gyflwynwyd yn unol â'r cyfraddau a drafodwyd. Bydd y Rheolwr Caffael yn cadw tystiolaeth o hyn ar ffeil.
- 21.7. Bydd y Rheolwr Caffael yn anfon y Gwahoddiad i Dendro at bob cyflenwr (o leiaf pedwar). Os na ellir canfod pedwar cyflenwr, bydd angen tystiolaeth ddogfennol i ddangos bod pob ymgais wedi'i wneud i ganfod pedwar cyflenwr. Os dyma yw'r achos, rhaid cael cymeradwyaeth gan yr UDRh cyn i'r tendr gael ei anfon allan.
- 21.8. Bydd pob gwahoddiad i dendro'n cael ei ddychwelyd i'r Rheolwr Caffael a'i gadw yn y Swyddfa Brynu.
- 21.9. Ni fydd y tendrau'n cael eu hagor cyn y dyddiad a'r amser a nodir yn y ddogfen dendro.
- 21.10. Dan amgylchiadau eithriadol, lle bydd angen derbyn tendr hwyr, rhaid cofnodi'n glir y rheswm am ei dderbyn. Ni fydd tendrau wedi'u ffacsio'n cael eu derbyn. Bydd y Rheolwr Caffael yn dychwelyd tendrau wedi'u ffacsio neu dendrau hwyr at y cyflenwr gyda llythyr eglurhaol sy'n esbonio pam nad ystyriwyd y cynnig.
- 21.11. Os daw llai na thri thendr i law, gallai'r Rheolwr Caffael a deiliad y gyllideb fwrw ymlaen â'r dadansoddiad ar y tendrau sy'n weddill ar yr amod ei fod/bod yn fodlon bod dal modd



cyrraedd gwerth gorau. Os nad yw hyn yn bosibl ac os oes digon o amser, dylid ailgyhoeddi'r tendrau.

22. Agor y Tendrau

- 22.1. Bydd tendrau rhwng £25,001 a £100,000 yn cael eu hagor ym mhresenoldeb y Rheolwr Caffael a'r Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) neu ei (h)enwebai.
- 22.2. Bydd tendrau rhwng £100,000 a £500,000 yn cael eu hagor ym mhresenoldeb y Rheolwr Caffael a'r Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) neu ei (h)enwebai, yn ogystal ag aelod o'r Uwch Dîm Rheoli / Pwyllgor Adnoddau.
- 22.3. Bydd tendrau o dros £500,000 yn cael eu hagor ym mhresenoldeb y Rheolwr Caffael a'r Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) neu ei (h)enwebai, yn ogystal ag un aelod o'r Uwch Dîm Rheoli a Chyngor y Brifysgol/Pwyllgor Adnoddau.
- 22.4. Bydd y Dogfennau Tendr yn cael eu cofnodi ar y Ffurflen Cofnodi Tendr a'u mewngofnodi yn y Gofrestr Tendrau.
- 22.5. Bydd y Rheolwr Caffael, trwy ymgynghori â deiliad priodol y gyllideb, yn llunio argymhelliad o ran pa gwmi dylid dyfarnu'r contract iddo. Rhaid ystyried y gost gymharol, ansawdd a'r wybodaeth am y tendrwr wrth roi'r argymhellion at ei gilydd.
- 22.6. Ar gyfer tendrau o hyd at £100,000, bydd adroddiad ar y cynnig a argymhellir yn cael ei gyflwyno i'r UDRh am gymeradwyaeth derfynol. Mewn achosion lle nad oes UDRh ac ystyrir yr archeb yn un brys, gall dau aelod o'r UDRh roi cymeradwyaeth.
- 22.7. Ar gyfer tendrau o dros £100,000, bydd adroddiad ar y cynnig a argymhellir yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Adnoddau'r Brifysgol am gymeradwyaeth derfynol.
- 22.8. Rhaid cofnodi canlyniad y penderfyniad o ran i bwy i ddyfarnu'r contract ar y Gofrestr Tendrau.
- 22.9. Bydd y Rheolwr Caffael yn llunio'r llythyr dyfarnu a llythyrau sy'n rhoi gwybod i'r cwmnïau hynny oedd yn aflwyddiannus.
- 22.10. Bydd archeb swyddogol am y nwyddau/gwasanaeth a dendrwyd yn cael eu gosod gan ddeiliad y gyllideb gan ddyfynnu rhif y contract.
- 22.11. Bydd y Rheolwr Caffael yn cadw holl ddogfennaeth y tendr am gyfnod o chwe blynedd.

23. Eglurhad Ar Ôl y Tendr / Dyfynbris

- 23.1. Gallai fod angen i ddeiliad y gyllideb gyfathrebu â'r tendrwr er mwyn cael gwybodaeth am faterion technegol a chyfamodol. Rhaid i'r holl gyfathrebiadau fod yn gyfrinachol a'u cofnodi ar bapur. Os bydd cyflenwr yn codi mater a allai fod yn berthnasol i'r holl gynigwyr, yna dylai'r Rheolwr Caffael / Ystadau roi gwybod i bob cynigydd, heb ddatgelu enw'r cynigydd a wnaeth yr ymholiad. Ni ddylai'r pris a gyflwynir gan un tendrwr gael ei ddatgelu i dendrwr arall ar unrhyw gyfrif. Dan rai amgylchiadau, gallai trafodaethau gael eu cynnal ar ôl derbyn y tendrau ffurfiol a chyn gosod contract i gynorthwyo gyda'r eglurhad.
- 23.2. Felly, gellir ond ymgymryd â thrafodaethau ar ôl y tendr dan un o'r amgylchiadau canlynol:-
 - Gwnaed newidiadau i'r fanyleb,
 - Gwnaed newidiadau yng nghyfaint y gwaith neu'r gwasanaethau gofynnol,
 - Bod un tendr neu ddyfynbris wedi dod i law,
 - Bod y pris a dendrwyd yn fwy na'r targedau a benderfynwyd ymlaen llaw,
 - Lle mae posibilrwydd o drafodaeth ar ôl y tendr wedi'i hysbysu i dendrwr adeg y Gwahoddiad i Dendro.



23.3. Rhaid cadw cofnod llawn a chywir o'r holl drafodaethau ar ôl y tendr gan gynnwys enwau'r holl aelodau staff sydd ynghlwm, cofnodion yr holl gyfarfodydd a chopïau o'r holl lythyrau a dogfennau a gynhyrchwyd, er mwyn sicrhau llwybr archwilio effeithiol.

23.4. Mae egwyddorion trafod ar ôl y tendr yn berthnasol hefyd i drafod ar ôl y dyfynbris.

24. Caffael ar gyfer Prosiectau a Ariennir gan ESF / ERDF / EAGGF

24.1. Mae rheolau'r Gymuned Ewropeaidd ar gaffael yn berthnasol i gysylltiadau a ariennir neu a ariennir yn rhannol gan y Grant Cronfeydd Strwythurol.

24.2. Mae angen y cam gweithredu canlynol:

Amcangyfrif Gwerth	Cam Gweithredu Angenrheidiol
O dan £250/€400	Nid oes angen dyfynbris
£251/€401 hyd at £500/€800	Un dyfynbris ar lafar
£501/€801 hyd at £2,500/€4,000	O leiaf tri dyfynbris ar lafar
£2,501/€4,001 hyd at £15,000/€24,000	O leiaf tri dyfynbris ysgrifenedig, ar sail manyleb ysgrifenedig glir o'r gofyniad
£15,001/€24,001 hyd at £50,000/€80,000	Fel rheol, gwahoddir o leiaf tri thendr cystadleuol ffurfiol
£50,001/€80,001 a throsodd	Fel rheol, gwahoddir pedwar i chwe thendr cystadleuol ffurfiol

Sylwch, mae'r gwerthoedd yn cynnwys TAW.

Rhaid i'r penderfyniad ddangos gwerth gorau a rhaid cadw cofnodion i gefnogi'r penderfyniad a wnaed.

25. Cyllid ERDF

25.1. Rhaid i'r prosiectau gydymffurfio â Deddfwriaeth Amgylcheddol yr UE. Cysylltwch â Rheolwr Ariannu'r Prosiect am ragor o wybodaeth.

26. Deddfwriaeth yr UE

26.1. Dan ddeddfwriaeth yr UE, caniateir trafodaeth ar ôl tendr ar unrhyw ffactor a allai effeithio ar bris y contract dim ond os cynhaliwyd yr ymarfer tendro o dan y weithdrefn "trafodwyd". Caiff nifer y cynigywyr i'w dewis am drafodaeth bellach ei chynnwys yn y Gwahoddiad i Dendro.

CYFARWYDDEBAU CAFFAEL EWROPEAIDD – CANLLAW CRYNO

27. Rheolau'r UE

27.1. Caiff y sector cyhoeddus yn yr UE ei gwmpasu gan nifer o Gyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus. Dônt â gofynion deddfwriaethol i rym yn y DU, yn ogystal â rhannau eraill o'r UE, a gytunwyd fel rhan o'r rhaglen Marchnad Sengl.

27.2. Fe'u dyluniwyd i dynnu ymaith y rhwystrau cenedlaethol i gyflenwi nwyddau, gwaith a gwasanaethau i'r sector cyhoeddus yn Ewrop a helpu sicrhau bod y cyrff hynny'n cofleidio'r arferion caffael gorau er mwyn cyflawni'r gost prynu isaf o'r ffynhonnell cyflenwi gorau ar draws y Gymuned Ewropeaidd.

27.3. Bwriad y ddeddfwriaeth yw annog cystadleuaeth trwy osod gweithdrefnau hysbysebu a thendro manwl ar gyfer prynwyr. Caiff y defnydd o fanylebau a safonau ei reoleiddio hefyd.

27.4. Gwasanaethir gwerth am arian orau gan ddull synnwyr cyffredin o droi at y ddeddfwriaeth. Rhaid cymedroli hyn gyda'r angen i ddiogelu'r sefydliad rhag cosbau ariannol difrifol diffy



cydymffurfiaeth, heb greu biwrocratiaeth. Y polisi mwyaf priodol ddylai gweithredu'r rheolau a chael y buddiannau, ond gyda'r gost a'r ymyrraeth isaf posibl i'r gweithrediadau.

28. Beth yw Deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus?

- 28.1. Mae deddfwriaeth caffael cyhoeddus bellach yn gosod y gweithdrefnau a'r arferion i'w dilyn gan lywodraeth ganolog a lleol, cyrff cyhoeddus eraill a'r Cyfleustodau sy'n gweithredu yn y sectorau dŵr, ynni, cludiant a thelathrebu.
- 28.2. Mae'r Tair Cyfarwydddeb ar gyfer contractau cyflenwi, contractau gwaith a chontractau gwasanaethau'n effeithio ar y sector cyhoeddus.
- 28.3. Mae'r tabl isod yn rhoi canllaw cryno:

Deddfwriaeth	Meysydd Cwmpasu	Trothwy*
Cyflenwadau Cyhoeddus	Mae'r nwyddau'n cynnwys cynhyrchion a chnydau. Un enghraifft bosibl yw caledwedd gyfrifiadurol a fyddai'n gyflenwad ac a allai gynnwys lleoli a gosod.	£173,934
Gwaith Cyhoeddus	Eitemau a restrir yn Atodiad II y Gyfarwydddeb (cyfyngedig i adeiladu a pheirianeg sifil). Gallai enghraifft fod yn waith cloddio lle gwaith yw'r amcan yn bennaf.	£4,348,350
Gwasanaethau Cyhoeddus	Pob contract arall (gyda rhai eithriadau fel tir a chontractau cyflogaeth, sydd wedi'u heithrio'n benodol o'r ddeddfwriaeth).	£173,934

Effeithiol o 1 Ionawr 2014 ymlaen.

29. Gweithdrefnau i'w Dilyn

Fel arfer, cymryd gwerth o barhad y contract.

Ar gyfer cyflenwadau neu wasanaethau cyson (dro ar ôl tro), cymryd gwerth o dros 12 mis.

Ar gyfer contractau rhenti o lai na 12 mis, cymryd gwerth o barhad.

Ar gyfer contractau heb gyfnod penodol neu hwy na 48 mis, cymryd gwerth misol x 48.

- 29.1. Lle mae nifer o gontractau cyson neu gontractau gyda nodweddion tebyg, a fydd yn cael eu hadnewyddu o fewn cyfnod penodol, yna bydd gwerth cyfansymiol y rhain yn cael eu defnyddio i benderfynu ydy'r trothwy o 200,000 ECU yn berthnasol.
- 29.2. Os ydy'r contract yn debygol o fod uwchlaw'r trothwy, gall gael ei eithrio o ddarpariaethau'r Gyfarwydddeb dim ond ar sail Cyfrinachedd neu Ddiogelwch Gwladol, neu oherwydd ei fod yn amodol ar weithdrefn ryngwladol arall.



29.3. Os ydyw'n amlwg y bydd y contract yn rhagori'r lefel hon, rhaid i'r tendr fod yn agored ar gyfer cystadleuaeth Ewropeaidd ei sail. Cyflawnir hyn trwy ddilyn gweithdrefnau a osodwyd gan y cyfarwydddebau. Cysylltwch â'r Rheolwr Caffael.

30. Nwyddau

30.1. I ddechrau, caiff hysbyseb ei gosod yng Nghyfnodolyn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd. Ceir isafswm cyfnod rhagnodedig i ymgeiswyr neu dendrwy'r ddychwelyd cynigion.

30.2. Mae tair prif weithdrefn i'w dilyn:

- i) **Agored.** Y gweithdrefnau hynny lle gall yr holl gyflenwyr sydd â diddordeb yn y Contract gyflwyno tendrau. Rhaid caniatáu 52 diwrnod o osod yr hysbyseb i dderbyn y tendrau
- ii) **Cyfyngedig.** Dim ond y rhai sydd wedi'u gwahodd all gyflwyno tendrau. Rhaid caniatáu cyfnod o 37 diwrnod o dderbyn ceisiadau i gymryd rhan a 40 diwrnod i dderbyn tendrau.
- iii) **Trafodwyd.** Lle gallai awdurdodau drafod telerau contract gydag un cyflenwr dethol neu'n fwy. Gall hyn ond cael ei ddefnyddio dan amgylchiadau arbennig lle gellir cyfiawnhau'n llawn y defnydd o'r contract wedi'i drafod. Rhaid caniatáu 37 diwrnod i dderbyn ceisiadau i gymryd rhan.

30.3. Mae'r defnydd o'r Weithdrefn a Drafodwyd ond ar gael mewn achosion wedi'u diffinio'n llym iawn.

30.4. Mae pedwaredd gweithdrefn ar waith i ystyried cystadlaethau dylunio. Mae hyn yn galluogi'r Brifysgol i gaffael, gan mwyaf ym maes pensaernïaeth, gynllun neu ddyluniad a ddewiswyd gan reithgor yn dilyn cystadleuaeth lle caiff gwobrau eu rhoi neu beidio.

30.5. Y ffyrdd presennol lle gellir lleihau'r isafswm amserlenni yn amodol ar ddarparu digon o amser.

30.6. Gallai amserlenni byrrach gael eu defnyddio lle cyhoeddwyd Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw rhwng 52 diwrnod a 12 mis cyn cyhoeddi Hysbysiad y Contract.

30.7. Gallai gweithdrefnau carlam gael eu defnyddio am resymau brys, ond rhaid iddynt gael eu cyfiawnhau yn yr Hysbysiad Contract.

30.8. Gallai Gweithdrefn a Drafodwyd hepgor Hysbysiad Contract dan amgylchiadau arbennig (lle nad yw cystadleuaeth yn ymarferol).

30.9. Mae'r rheolau'n caniatáu ar gyfer eithrio rhai contractau, sy'n cynnwys:

- Contract ar gyfer meysydd gweithgarwch a gynhwysir gan y Cyfarwydddebau Cyfleustodau (megis Contractau a osodwyd gan sefydliadau sy'n cyflenwi nwy a thrydan); a,
- Contractau a ddosbarthwyd yn gyfrinachol gan aelod wladwriaeth neu gontractau a ddyfernir fel rhan o gytundeb rhyngwladol.

30.10. Caiff contractau eu cynnwys dim ond os rhagorant ar y trothwyon ariannol. Fodd bynnag, nid yw prisiad yn syml bob amser. Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn am gasglu contractau a chanddynt nodweddion tebyg, a ddyfernir i fodloni anghenion mynych dros yr un cyfnod. O ganlyniad, bydd llawer mwy o gontractau'n cael eu cwmpasu nag yw'r achos yn y lle cyntaf. Mae'r ddeddfwriaeth yn gwahardd yn benodol rhannu contractau neu ddefnyddio dulliau gwerthuso arbennig i gadw'r gwerthoedd islaw'r trothwyon.

31. Rheoliadau'r UE ar gyfer Dewis Tendrau a Gweithdrefnau Gwobrwyo

31.1. Gofyniad y ddeddfwriaeth yw bod digon o dendrwy'r yn cael eu dewis i sicrhau cystadleuaeth ddigonol. Ni wneir yn amlwg nifer yr ymgeiswyr y mae'r awdurdod contractio'n gwneud ei



ddewis tendrwy'r ohono, ond gallai ystod o gynigwyr gael eu nodi os dymunir, rhaid iddo fod yn ddim llai na 4 a dim mwy nag 20.

- 31.2. Rhaid i'r dulliau o ddewis tendrwy'r fod yn wrthrychol ac yn deg. Rhydd y Cyfarwydddebau i gwmnïau na chânt eu dewis yr hawl i wybod y rhesymau am beidio â'u dewis. Rhaid i'r sefydliad gofnodi'r rhesymau hyn yn ofalus a rhaid cadw'r wybodaeth am gyfnod rhesymol. Nid osodir cyfnod amser yn neddfwriaeth y sector cyhoeddus ond fe'i nodir fel pedair blynedd yn y Gyfarwydddeb Cyfleustodau. Gall cwmnïau ond cael gwrthod y cyfle i dendro am y rheswm a osodwyd yn y Cyfarwydddebau.

32. Manylebau a Safonau Technegol

- 32.1. Mae'r rheolau'n gofyn i'r prynwyr nodi trwy gyfeirio at fanylebau Ewropeaidd lle maen nhw'n bodoli.
- 32.2. Mae manyleb Ewropeaidd yn cynnwys:
- Safon genedlaethol sy'n ymgorffori Safon Ewropeaidd.
 - Gofynion perfformiad neu weithredol.
 - Manylebau technegol cenedlaethol am eitemau sy'n destun y Gyfarwydddeb Cynhyrchion Adeiladu.
- 32.3. Lle mae yna resymau clir iawn, gallai eithriad o'r rheolau hyn gael ei ddefnyddio, ond rhaid cyfiawnhau hyn ym mhob achos a chynnal cofnodion ffurfiol. Gall eithriadau ond bod am resymau anghydnawsedd neu oherwydd datblygiadau technolegol ers creu'r safon.
- 32.4. Lle nad oes manyleb Ewropeaidd, bydd un o'r safonau canlynol yn nhrefn ddisgynnol yn cael ei defnyddio:
- Safon Brydeinig sy'n ymgorffori safon Ryngwladol.
 - Safon Brydeinig
 - Unrhyw safon arall
- 32.5. Ceir cyfyngiadau pwysig ar fanylebau hefyd. At ei gilydd, rhaid peidio â defnyddio enwau masnach a phatentau ac mae angen bod yn ofalus i osgoi nodi yn wahaniaethol (gan arwain at y posibilrwydd o driniaeth anghyfartal i'r cyflenwyr).

ASESU TENDRAU

33. Dulliau Asesu

- 33.1. Ceir dau ddull o asesu cynigion:
- Y Pris Isaf
 - Y cynnig Mwyaf Manteisiol yn Economaidd
- 33.2. Lle defnyddir yr ail fath, rhaid i'r sefydliad fod yn barod i wneud y canlynol:
- Gosod y meini prawf y bwriedir eu defnyddio
 - Cyhoeddi'r meini prawf hyn yn Hysbysiad y Contract neu pan gyhoeddir dogfennau'r Contract a lle bo'n bosibl, dylai'r meini prawf gael eu manylu yn nhrefn pwysigrwydd am i lawr.
- 33.3. Os penderfynir derbyn tendr ar feini prawf ar wahân i'r gwerth isaf, rhaid codi Memorandwm Gwro Cynnig sy'n rhoi'r rheswm am dderbyn y cynnig. Rhaid i hyn gynnwys rheswm manwl sy'n cael ei gytuno gan bawb sy'n agor y tendrau, a'u llofnodi ganddynt. Bydd hyn yn aros gyda dogfennaeth gwerthuso'r tendrau.

34. Cadw Cofnodion

- 34.1. Rhaid cadw cofnodion ym mhob cam o'r broses gaffael rhag ofn bydd her yn y llysoedd neu at ddibenion adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd. Rhaid i'r cofnodion hyn fanylu ar bob penderfyniad a wneir gan y sefydliad mewn dyfarniadau contract unigol a dylid eu cadw am gyfnod rhesymol. Bydd y cofnodion yn cael eu cadw gan y Rheolwr Caffael.



35. Beth os bydd cyflenwr yn cwyno?

- 35.1. Mae gan gyflenwyr nifer o ddulliau unioni ar gael os bydd y sefydliad yn torri'r rheolau. Dyma nhw:
- Gwahardd gweithdrefn ddyfarnu'r contract
 - Gosod y penderfyniadau anghyfreithlon a wnaed i'r naill ochr
 - Cywiro dogfennau i dynnu cymalau gwahaniaethol ymaith
 - lawndal, gan gynnwys costau tendro, ac os yn bosibl, colled i elw.
- 35.2. Rhaid gwneud cais i'r Uchel Lys ond rhaid i'r cyflenwr wneud hyn yn brydlon a rhaid rhoi gwybod i'r prynwr am eu bwriad.
- 35.3. Yn aml, mae cyflenwyr hefyd yn cwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd, a fydd yn ymchwilio i'r gŵyn ac a allai weithredu yn erbyn yr Aelod Wladwriaeth (yn yr achos hwn y Trysorlys) yn y Llys Cyfiawnder Ewropeaidd.

36. Datganiad Polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Moesegol.

- 36.1. Dymuna'r Brifysgol wneud busnes gyda chyflenwyr sy'n rhannu'r un gwerthoedd craidd o ran datblygu cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a chyfle cyfartal, yn ogystal â gwerthoedd busnes allweddol yn eu dull o droi at degwch, gonestrwydd, effeithlonrwydd a phroffesiynoldeb.
- 36.2. Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i ddewis cyflenwyr sy'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau amgylcheddol ac sy'n ymdrechu i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol gadarn.
- 36.3. Dylid asesu cost bywyd cyfan y pryniannau a'r effaith i bob prynwr.
- 36.4. Dylid asesu'r defnydd ynni a'r gost o weithredu cyfarpar cyn prynu.
- 36.5. Ystyried nwyddau a gwasanaethau a allai gael eu cynhyrchu, eu defnyddio a'u gwaredu mewn ffordd amgylcheddol ymwybodol.

37. Yr Economi Leol

- 37.1. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldeb i hyrwyddo twf yn yr economi leol. Felly, o gael popeth yn gyfartal, mae'n well gan y Brifysgol ddefnyddio cyflenwyr lleol pan fo hynny'n bosibl.
- 37.2. Bydd y Brifysgol hefyd yn gweithio gyda chyflenwyr a sefydliadau fel y WDA i helpu cyflenwyr i wella'u gallu i fodloni'n gofynion.
- 37.3. Mae'r Brifysgol hefyd wedi cofrestru i'r siarter 'Agor Drysau' ar gyfer caffael cyfeillgar i fusnesau bach a chanolig eu maint.

TRAFODION CARDIAU PRYNU

38. Gwybodaeth am y Cerdyn Prynu

- 38.1. Cyflwynwyd y Cerdyn Prynu fel dull arall o dalu am drafodion gwerth cymharol isel. Fe'i derbynnir ar raddfa eang yn y DU a thramor. Bydd unrhyw sefydliad sy'n dangos y symbol Visa / Mastercard yn derbyn y cerdyn.
- 38.2. Cynigia'r Cerdyn Prynu gyfle i wella ffocws a hyblygrwydd gweithdrefnau prynu wrth leihau cyfaint yr archebion prynu, anfonebau a gwaith papur cysylltiedig ar gyfer mân bryniannau gwerth bach, ac felly'n gwella effeithiolrwydd cost prosesu'r trafodion hyn.



- 38.3. Bydd y cerdyn yn edrych fel unrhyw gerdyn credyd arferol, ac wedi'i foglynnu ar y cerdyn mae Enw'r Brifysgol, Enw Deiliad y Cerdyn, Dyddiad Dirwyn i Ben a Rhif y Cerdyn.
- 38.4. Mae gan bob deiliad cerdyn derfyn unigol am bryniannau a therfyn credyd misol. Gellir newid y terfynau hyn dros dro os oes angen trwy gysylltu â Gweinyddydd y Cerdyn, a fydd yn cysylltu â Barclay Card i drefnu awdurdodi hyn am gyfnod amser penodedig.

CAEL HYD I Nwyddau

39. Diffiniad o Cael hyd i

- 39.1. Cael hyd i yw adnabod cyflenwyr priodol a chymharu eu cynhyrchion er mwyn cyflawni gwerth am arian.
- 39.2. Dylid dewis cyflenwyr o blith:
- Cyflenwyr Cymeradwy'r Brifysgol
 - Contractau HEPCW
 - Contractau Gwerth Cymru

40. Contractau Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru (HEPCW)

- 40.1. Mae nifer o gontractau prynu sydd wedi'u trefnu gan y consortia uchod y mae'n rhaid i bob prynwr awdurdodedig lynu wrthynt.
- 40.2. Ni chaniateir i osod archebion gydag unrhyw gyflenwyr ar wahân i'r rhai a enwyd. Mae manylion y contractau a'r cyflenwyr i'w defnyddio ar y cysylltiadau uchod.
- 40.3. Dylid rhoi gwybod am unrhyw gyflenwyr sy'n cynnig gwell gwerth am arian na'r cyflenwyr a enwyd i'r Rheolwr Caffael cyn gosod archeb lle mae'n rhaid cael cymeradwyaeth swyddogol cyn y gellir gosod archeb gyda chyflenwyr heb ei gymeradwyo.
- 40.4. Mae'r Brifysgol yn gofyn bod pob Deiliad Cyllideb a enwyd yn rhoi cefnogaeth gyflawn i unrhyw gontractau a drefnwyd gan yr uchod.

41. Cyfrifiaduron a Phrynu Cysylltiedig â Chyfrifiaduron

- 41.1. Ni chaniateir i unrhyw brynwr osod unrhyw archebion prynu gyda chwmnïau sy'n ymwneud ag offer TG heb droi at y Pennaeth Technoleg a Systemau Gwybodaeth Gweithredol yn y lle cyntaf.

42. Contractau Adeiladu

- 42.1. Bydd contractau adeiladu o unrhyw werth sy'n ymgorffori adeilad newydd ac adnewyddiad neu addasiad newydd i adeiladau presennol ond yn cael eu prosesu trwy'r Adran Ystadau.

43. Contractau a Draffodwyd yn Genedlaethol – Gwerth Cymru

- 43.1. Mae'r Brifysgol yn gofyn i'r holl Ddeiliaid Cyllideb/staff prynu a enwir lynu'n gadarn wrth unrhyw gontractau prynu a draffodwyd ac a gynghorwyd gan yr adran gaffael. Gellir canfod manylion y contractau hyn ar y Wefan Gaffael.



FFACTORAU SY'N BERTHNASOL I BENDERFYNIADAU PRYNU

44. Statws y Cwmnïau sydd Ynghlwm

- Hyfywedd Ariannol
- Gallu Dylunio
- Gallu Cynhyrchu
- Statws Sicrhau Ansawdd ac enw da
- Trefniadau rheoli costau ac enw da
- Record Cyflawni

45. Cyfarpar a Gynigir

- Y graddau y mae'n bodloni'r isafswm gofyniad
- Rhinweddau dylunio / artistig (lle bo'n briodol)
- Cydnawsedd gyda'r offer sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio
- 'Pethau ychwanegol' uwchlaw'r isafswm gofyniad sy'n cynnig mantais gost effeithiol
- Cwmpas i wella neu 'ymestyn' trwy addasiadau neu 'ychwanegiadau' diweddarach
- Cydymffurfiaeth â safonau (cenedlaethol, rhyngwladol etc)
- Dibynadwyedd – enw da wedi'i brofi
- Rhwyddineb cynnal a chadw
- Trefniadau adrodd ar ddiffygion a chywiro
- Trefniadau atgyweirio / gwasanaethu

46. Costau Gweithredu

- Costau rhedeg
- Cost darnau sbâr – presennol a'r dyfodol
- Costau gwasanaethu a chynnal a chadw
- Costau storio a chefnogaeth arall

47. Cefnogaeth y Cynnyrch

- Ansawdd y cyfleusterau ar ôl gwerthiant
- Rhwyddineb yr atebolrwydd cyfreithiol

48. Trefniadau Disodli

- Derbynebaw o waredu yn y pen draw
- Ymrwymiad i'r cyfarpar disodli penodol
- Disodli'r ffrâm amser

49. Strategol a Strwythurol

- Diogelu'r ffynonellau cyflenwi hollbwysig
- Hyd y gadwyn gyflenwi a'i gwendid i fod yn destun ymyriadau
- Gwrthbwysu ystyriaethau
- Effaith caffael ar bris, argaeledd a chystadleuaeth ar gyfer cyflenwadau'r dyfodol (e.e. yn codi o ollwng dyfynbrisiau neu ddyfynbrisiau dirwasgedig artiffisial) gan gynnwys, fel y bo'n briodol, gyflenwadau ar gyfer prynwyr cyhoeddus eraill
- Effaith ar natur gystadleuol y cyflenwyr
- Annog arloesedd gan gynnig gwell gwerth am arian



50. Costau Di-oed Caffaeliad

- Pris cychwynnol
- Cadernid y pris (e.e. sefydlog neu heb amrywiad i'r pris, cost ychwanegol)
- Sail ar gyfer cytuno prisiau ar archebion cysylltiedig neu ddilyn i fyny
- Gwahaniaeth yn y fformiwla dwysáu cost
- Risgiau a chostau cyfnewid arian tramor
- Telerau talu (e.e. wrth ddanfon neu daliadau cynnydd/mewn camau)
- Cost ariannu taliadau interim
- Gofynion gwarant ariannol
- Tollau a threthi
- Telerau credyd
- Costau cludiant
- Costau gosod
- Cost cyfalaf gweithio ar gyfer stociau
- Ffactorau gostyngol
- Gwahaniaethau mewn costau gweinyddol (gan gynnwys gorbenion) i'r prynwr
- Cynigir warantfau a gwarantau technegol
- Trefniadau atebolrwydd cynnyrch
- Cwmpas ar gyfer, a chost cyflymu neu oedi caffael

51. Cyflawni

- Cydymffurfiaeth â'r gofyniad
- Dibynadwyedd y cynnig
- Effeithiau gweithredol ac ariannol argaeledd cynharach/diweddarach
- Costau a chyfnewidiadau gyda chostau dal stoc mewn amryw leoliadau
- Cyfyngiad ar iawndal

52. Cynaliadwyedd

- Meddwl am y gofyniad cyn prynu
- Herio'r gadwyn gyflenwi ar ei hymrwymiad i'r amgylchedd
- Gofyn am dystiolaeth a dogfennaeth gefnogol
- Ymchwilio i'w cadwyn gyflenwi amgylcheddol
- Treulio rhywfaint o amser yn ymchwilio i gyfansoddion y cynnyrch
- Treulio hyd yn oed mwy o amser yn cyfrifo cost rhedeg y cynnyrch
- Dadansoddi'r defnydd o ynni a dŵr
- Trafod y dull o gyflwyno, pecynnu a gwaredu ar y pecynnu / cymryd yn ôl
- Trafod rheolaeth diwedd bywyd – a fydd y cyflenwr yn cymryd cynnyrch yn ôl ac yn ailgylchu?
- Os na, ystyried eich cyfrifoldeb – cost gwaredu os na ellir ei ailgylchu

53. Cael Hyd i Un Cyflenwr

- 53.1. Ceir hyd i un cyflenwr lle dim ond un cyflenwr sy'n gallu cyflenwi'r nwyddau neu'r gwasanaeth. Dylid osgoi'r sefyllfa hon os oes modd. Mewn rhai achosion, bydd ehangu'r manylebau neu fabwysiadu manyleb newydd yn arwain at fwy o gyflenwyr yn gallu bodloni'r gofyniad. Lle mae'r defnydd o un cyflenwr yn anochel, dylid bod yn ofalus i sicrhau y cyflawnir y gwerth gorau am arian trwy archwilio rhestrau prisiau'r cyflenwr. Dylid cynnal trafodaethau arbennig gyda'r cyflenwr gan ddefnyddio Rheolwr Caffael y Brifysgol.



54. Gwerthusiad o'r Dyfynbris / Tendr

54.1. Wrth werthuso, dylid ystyried y canlynol:

- Pris.
- Ansawdd.
- Cyflawni
- Yr holl gostau perthnasol yn ymwneud â Gosod, Gweithredu, Gwasanaeth, Perfformiad, Gwaredu.
- Cydymffurfiaeth â'r Fanyleb.
- Iechyd a Diogelwch.
- Ffyddlondeb i'r Telerau a'r Amodau a gyflenwyd.

54.2. Fel rheol, derbynnir y dyfynbris am y pris isaf. Os na dderbynnir y pris isaf, yna dylid rhoi cyfiawnhad ar bapur ac anfon yr holl ddogfennau at yr Adran Gaffael i'w cymeradwyo.

55. Rheoliadau Cyffredinol

55.1. Rhaid i'r weithdrefn dendro gael ei defnyddio'n gyson a rhaid i'r holl staff sydd ynghlwm â thendro wirio, yn ystod eu hymglymiad, y glynwyd wrth y weithdrefn dendro.

55.2. Rhaid i unrhyw un sydd ynghlwm â'r broses dendro sydd â diddordeb personol mewn unrhyw dendr ddatgan hyn ar ddechrau eu gweithdrefn. Bydd methu gwneud hyn yn arwain at gamau disgyblu.

55.3. Yn ystod y weithdrefn dendro, mae manylion unrhyw dendr gan gontractwr neu gyflenwr yn gyfrinachol a rhaid peidio â'u datgelu i unrhyw un y tu allan i'r Brifysgol.

55.4. Ar ddiwedd y weithdrefn dendro, bydd contract yn cael ei osod. Fodd bynnag, rhaid i fanylion y tendrwr llwyddiannus barhau'n gyfrinachol i'r Brifysgol a'r cyflenwr oni fydd uwch reolwyr a chyflenwr y Brifysgol yn penderfynu fel arall.

55.5. Ni ddylai unrhyw aelod o staff gymryd camau i wro o'r weithdrefn dendro ddatganedig dan unrhyw amgylchiadau heb gymeradwyaeth y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol neu'r Dirprwy penodedig. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw doriad i'r weithdrefn i'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol a gallai'r staff dan sylw fod yn destun camau disgyblu.

55.6. Ar gyfer pob tendr dros £20,000, rhaid cynnwys o leiaf 6 chyflenwr ar y rhestr dendro. Yn eithriadol, lle mae nifer lai o gyflenwyr mewn sefyllfa i gyflenwi'r nwyddau neu'r gwasanaethau angenrheidiol, rhaid gosod yr holl gyflenwyr hynny ar y rhestr dendro.

55.7. Rhaid glynu'n llym wrth y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd tendrau. Rhaid i bob tendr a ddaw i law ar ôl yr amser penodedig gael eu dychwelyd i'r anfonwr oni fod marc post amlen y tendr cyn y dyddiad cau. Rhaid i dendrau a ddaw i law cyn yr amser penodedig gael eu cadw heb eu hagor mewn man diogel.

55.8. Dan amgylchiadau eithriadol, lle bydd angen derbyn tendr hwyr, rhaid cofnodi'n glir y rheswm am ei dderbyn. Ni fydd tendrau wedi'u ffacsio'n cael eu derbyn. Bydd y Rheolwr Caffael yn dychwelyd tendrau wedi'u ffacsio neu dendrau hwyr (os na chânt eu derbyn) at y cyflenwr gyda llythyr eglurhaol yn esbonio pam nad ystyriwyd y cynnig.



CYNGOR AR ARFARNU TENDRAU'N FASNACHOL

56. Tendr yr UE

- 56.1. Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob tendr am nwyddau a gwasanaethau lle mae disgwyl i'r contract deilliannol fod ar gyfer gwerth o dros **£173,934**, gael eu tendro ar hyd cyfnodolyn yr UE. Gan ganiatáu o leiaf chwe mis am y broses hon, rhaid cysylltu â Rheolwr Prynu'r Brifysgol a fydd yn gallu darparu arweiniad a chymorth trwy'r broses hon.

57. Manyleb

- 57.1. Dylai nifer fawr o'r cynhyrchion y dymuna'r Brifysgol eu prynu fod yn syml o ran eu disgrifiad. Fodd bynnag, nodir y bydd manyleb cynnyrch sy'n gymhleth yn anodd ac yn feichus o ran amser. Yn yr un modd, ni fydd disgrifiad o "wasanaeth" yn hawdd. Yr egwyddor arweiniol yw darparu manyleb deg sy'n cwmpasu safonau ansawdd a gwneuthuriad disgwylidig, safonau lefel gwasanaeth ac ymarferoldeb sy'n galluogi'r holl gyflenwyr tendro i ddechrau, cymaint â phosibl, ar "gae chwarae gwastad". Dylid osgoi enwi brandiau, lle bo'n bosibl.

58. Cyfrifoldeb ar gyfer Manyleb

- 58.1. Mae manyleb yn rhan annatod a phwysig o'r broses dendro a saif y cyfrifoldeb yn y pen draw am ysgrifennu a llofnodi'r fanyleb gyda deiliad y gyllideb sy'n gyfrifol am adran/rhan y defnyddiwr. Dylai deiliad y gyllideb neu ddirprwy awdurdodedig a dethol gael ei ystyried o'r pwynt hwn fel "arweinydd y prosiect", a bydd yn gyfrifol am gydymffurfio â phob agwedd ar y weithdrefn dendro.

59. Dewis Cyflenwyr

- 59.1. Ar ôl i'r fanyleb gael ei hysgrifennu a'i chymeradwyo, y cam nesaf yw dewis darpar dendrwy. Mae'n bosibl hysbysebu'r gofyniad yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol ond hwyrach nad yw hyn yn gynnig ymarferol. Wedyn, rhaid rhoi holiadur cyflenwr at ei gilydd gyda mecanwaith sgorio'n cael ei gytuno i sicrhau y gall y cyflenwyr fodloni anghenion gofynion y Brifysgol. Rhaid i'r broses hon gael ei defnyddio i ddewis y cwmnïau gorau sy'n gallu darparu'r gwasanaeth i'r Brifysgol. Yr unig ddull arall yw trwy ddewis cynifer o gyflenwyr ag sy'n ymarferol y gwyddys y gallant gyflenwi yn erbyn y gofyniad.

- 59.2. Lle dim ond nifer fach iawn o gyflenwyr sy'n hysbys, disgwylir y bydd chwiliad manwl yn cael ei gynnal o'r farchnad berthnasol i sicrhau na cholli'r cyflenwyr. Lle mae nifer fawr o gyflenwyr, caniateir dewis nifer resymol lle dylai'r dewis fod yn seiliedig ar wybodaeth neu feini prawf cyfiawn. Ni ddylai cyflenwr gael ei eithrio os nad oes gwybodaeth am brisio, cynnyrch neu weithrediad. Sylwch fod y rheoliadau cyffredinol yn ymwneud â dewis cyflenwyr yn rhan 3.6.

60. Y Ddogfen Gwahoddiad i Dendro

- 60.1. Ar ôl i'r fanyleb gael ei hysgrifennu a'r cyflenwyr gael eu dewis, rhaid i'r ddogfen gwahoddiad i dendro gael ei pharatoi. Dylai hyn gynnwys:

- Y fanyleb ac unrhyw luniau.
- Ffurflen y Tendr.
- Telerau ac amodau'r Tendr (gyda thelerau disgwylidig y contract).
- Unrhyw gyfarwyddyd arbennig gan y tendrwr (h.y. dyddiad ac amser dychwelyd y tendr ac ati).

- 60.2. Awgrymir cysylltu â Rheolwr Prynu'r Brifysgol am gymorth ar y cam hwn.

61. Anfon y Gwahoddiad i Dendro

- 61.1. Bydd amlen dendro'n cael ei chynnwys gyda'r llythyr gwahoddiad i dendro. Rhaid rhoi gwybod i'r darpar dendrwy fod rhaid defnyddio'r amlen dendro hon i ddychwelyd tendr a hefyd dychwelyd y tendr erbyn yr amser a'r dyddiad a roddwyd.



62. Dychwelyd Tendr y Cyflenwr

- 62.1. Bydd pob amlen dendro'n cael eu cofnodi heb eu hagog o'u derbyn ac yn cael eu cadw dan glo. Bydd unrhyw dendr sy'n cyrraedd mewn rhywbeth ar wahân i'r amlen swyddogol neu'n cyrraedd yn hwyr yn cael eu cofnodi ond yn cael eu diystyru o werthusiad y tendr. Gweler y rheoliadau cyffredinol yn ymwneud â dychwelyd tendrau yn rhan 3.7.

63. Agor y Tendrau: Y Panel

- 63.1. Cyn dyddiad dychwelyd y tendr, dylai arweinydd y prosiect drefnu panel i agor y tendrau. Dylai hwn gynnwys:- y Rheolwr Caffael neu ei (h)enwebai, a'r Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) neu ei (h)enwebai.

64. Agor y Tendrau: Y Weithdrefn

- 64.1. Bydd pob tendr, o'u hagog, yn cael eu cofnodi ar y ddogfen cofnodi tendrau ynghyd â chyfanswm y cynnig. Bydd pob aelod o'r panel yn rhoi llofnod ar y ddogfen cofnodi tendrau i gadarnhau'n swyddogol y cynigion a restrir.

65. Arfarnu'r Tendrau: Technegol

- 65.1. Awgrymir bod y cyfrifoldeb am y gwerthusiad technegol o'r tendrau'n sefyll gyda'r deiliad cyllideb sy'n gyfrifol am yr adran ddefnyddiwr ac am wneud argymhellion ar sail meini prawf technegol yn unig. Oherwydd gall gwybodaeth am bris ddylanwadu ar amcan y gwerthusiad technegol, rhaid i hyn ddigwydd ar wahân i'r gwerthusiad masnachol. Gallai fod angen trefnu cyflwyniadau gan y cyflenwr ar y cam hwn i gynorthwyo yn y broses werthuso.

66. Arfarnu'r Tendrau: Masnachol

- 66.1. Dylai'r arfarniad masnachol gynnwys ystyriaeth o'r holl bwyntiau a godwyd yn rhan 4.1 y ddogfen hon.

67. Dewis Cyflenwr

- 67.1. Dylid dewis y cyflenwr llwyddiannus ar sail archwiliad gofalus o'r holl feini prawf technegol a masnachol. Wrth reswm, y cyflenwr a ddewisir fydd yr un a fodlonodd y nifer fwyaf o'r meini prawf pwysig.

68. Ail-dendro

- 68.1. Caniateir ail-dendro contract neu ddarpar bryniant os ydyw'n amhosibl dewis tendrwr buddugol o'r cynigion a ddaeth i law. Dim ond y prif gyflenwr ddylai gael eu dewis ar gyfer y broses hon a dylid rhoi triniaeth gyfartal i bob un a ddewiswyd. Rhaid peidio â rhoi mantais i unrhyw gyflenwr a ofynnwyd i ail-dendro ond caniateir i gynghori'r cyflenwr o'r rhesymau cyffredinol am y broses ail-dendro. Yn ogystal, ni chaniateir ail-dendro os oes enillydd clir, yn y gobaith pur o yrru'r pris i lawr. Rhaid dilyn pob proses a gynhaliwyd wrth dendro yn achos ail-dendro.

69. Trafodaeth ar ôl y Tendr

- 69.1. Ar ôl i'r tendrwr buddugol gael ei ddewis, caniateir mynd i drafodaeth ar ôl y tendr gyda'r cyflenwr hwnnw'n unig. Gall trafodaeth ar ôl y tendr gwmpasu pob un agwedd neu unrhyw agwedd ar y darpar contract gan gynnwys pris, cyflawniad a thelerau talu, a thelerau ac amodau'r contract. Awgrymir bod Rheolwr Prynu'r Brifysgol yn rhan o'r trafodaethau hyn.

70. Cwblhau'r Contract

- 70.1. Ar ôl cwblhau'r trafodaethau ar ôl y tendr, rhaid i Reolwr Prynu'r Brifysgol graffu'r telerau ac amodau. Gallai hyn olygu trafodaeth bellach gyda'r cyflenwr, oherwydd bydd y Rheolwr Prynu'n edrych i ddiogelu'r Brifysgol ar y pryniant a bydd yn sicrhau bod y telerau a'r amodau'n darparu'r cyfleuster hwn.

71. Y Contract

- 71.1. Ar ôl cytuno'r telerau ac amodau, mae'r contract yn barod i'w harwyddo. Yr unig lofnodydd awdurdodedig i gontract yw'r pennaeth. Bydd y pennaeth yn gofyn i Reolwr Prynu'r Brifysgol roi ei lythrennau ar y contract cyn iddo roi ei lofnod ef.



71.2. Rhaid i arweinydd y prosiect ysgrifennu at y tendrwy'r aflwyddiannus yn rhoi gwybod iddynt fod y contract wedi'i ddyfarnu i rywrai eraill ac yn eu diolch nhw am eu cyfranogiad. Dylid disgwyl i'r cyflenwyr hyn ofyn am ragor o wybodaeth am y rheswm am eu methiant a rhaid i arweinydd y prosiect fod yn barod i gynnig rhywfaint o wybodaeth heb ddatgelu'r pris nac enw'r cyflenwyr y dyfarnwyd y contract iddo.

72. Cadw Dogfennaeth

72.1. Cedwir y copïau o'r holl ffurflenni agor tendrau wedi'u llenwi gan y clerc i'r llywodraethwyr, cedwir y contractau gan Reolwr Prynu'r Brifysgol, ac mae'n bwysig bod naill ai deiliad y gyllideb neu reolwr prynu'r Brifysgol yn cadw copïau o'r holl ddogfennaeth yn ymwneud â'r tendr am gyfnod o hyd at saith mlynedd at ddibenion archwilio.

73. Cymorth a Chyngor

73.1. Gellir cysylltu â Rheolwr Prynu'r Brifysgol unrhyw bryd am gyngor a chymorth ag unrhyw agwedd ar y weithdrefn dendro.

DEILIAID SWYDDI A MANYLION CYSWLLT YR ADRAN GAFFAEL

Swydd	Enw	Ffôn	E-bost
Rheolwr Caffael	Heidi Davies	01554 748092 01267 676881	Heidi.davies@colegsirgar.ac.uk Heidi.davies@tsd.uwtsd.ac.uk
Cynorthwydd Caffael (Coleg Sir Gâr)	David Davies	01554 748527	David.davies2@colegsirgar.ac.uk

Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

Dylid ystyried y polisi hwn ar y cyd â Rheoliadau a gweithdrefnau Ariannol y Brifysgol.

Mae'r polisi hwn yn gysylltiedig hefyd â Strategaeth Gaffael PCDDS.



Goblygiadau o ran Adnoddau

Goblygiad	Manyllder
Cyllid	<i>Mae'r polisi hwn yn gofyn am adolygu'r terfynau gwario a amlinellwyd yn y Rheoliadau Ariannol. Felly, bydd angen adolygu'r Rheoliadau Ariannol i gymeradwyo'r polisi hwn.</i>
Staff	<i>Dylid cyflwyno'r polisi hwn yn unol â'r argymhellion a amlinellwyd yn y Gwiriad Ffitrwydd Caffael. Mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad mewn adnoddau ychwanegol ac yn cyfrif am gynllunio dilyniant.</i>
Asedau	<i>Nid yw'r defnydd o'r polisi hwn yn gofyn am fuddsoddi mewn unrhyw asedau ychwanegol ar hyn o bryd.</i>
Partneriaid	<i>Cyfeiria'r polisi hwn at bartneriaid / cyrff a all gaffael nwyddau a gwasanaethau gyda'i gilydd i gyflawni'r gwerth gorau. Mae cyhoeddiad y polisi hwn yn hyrwyddo tryloywder proses gaffael y brifysgol ac yn amlinellu'n glir y broses i fusnesau / partneriaid wneud cynnig am nwyddau a gwasanaethau i'w cyflenwi i'r Brifysgol.</i>
Amserlenni	<i>Y gobaith yw y gellir cymeradwyo'r polisi hwn cyn diwedd blwyddyn academaidd 2014/15 ac y bydd ynddod i rym yn syth. Bydd y polisi'n cael ei adolygu yn yr haf 2016 a fydd yn galluogi ar gyfer cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau gan y Cyngor cyn diwedd y flwyddyn galendr. Bydd y Rheolwr Caffael yn gyfrifol am archwilio a phrofi'n gyfnodol y defnydd o'r polisi.</i>
Arweinyddiaeth	<i>Mae'r Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) yn gyfrifol am Arweiniad Strategol ar gyfer y maes busnes hwn. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cadw cyfrifoldeb gweithredol ac mae gan y Rheolwr Caffael gyfrifoldeb o ddydd i ddydd am weithrediad Caffael.</i>



Asesiad o Effaith

Goblygiad	Ystyriwyd Effaith (Do/Naddo)	Effaith Wedi'i Nodi
Cyfreithiol	Do	<i>Manylir ar y rhain yng nghorff y Polisi.</i>
Cyfraniad at y Cynllun Strategol	Do	<i>Cefnoga'r Polisi nifer o amcanion strategol PCDDS gan gynnwys datblygu campysau modern, addas at y diben, datblygu a mireinio'r cysyniad o Brifysgol Sector Deuol, cymryd rhan yn llawn yn yr agenda datblygu cynaliadwy a sicrhau bod ei fframwaith llywodraethu'n rymus ac yn addas at y diben.</i>
Dadansoddiad Risg		<i>Gall diffyg defnydd o'r Polisi hwn arwain at anghysonderau o ran proses a all arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gaffael Ewropeaidd a chenedlaethol. Roedd cyhoeddi'r Polisi hwn yn argymhelliad yn y Gwriad Ffitrwydd Caffael.</i>
Cydraddoldeb		<i>Mae'r defnydd o'r Polisi'n hyrwyddo proses gyfartal.</i>
Y Gymraeg		<i>Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, bydd y Polisi'n cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi ar wefan PCDDS.</i>
Amgylcheddol a Chynaliadwyedd		<i>Mae'r Polisi'n cynnwys datganiad ar ei ymrwymiad i gynaliadwyedd.</i>
Cyfathrebu/ Cyfryngau/ Marchnata		<i>Ar ôl cymeradwyo, bydd bodolaeth y Polisi'n cael ei gyfleu i'r staff trwy'r Bwletin Staff. Bydd gwybodaeth a chyngor ar gael hefyd dan Adran Gaffael y Gwasanaethau Corfforaethol, MyDay.</i>



Awdur(on) y Polisi:

Heidi Davies – Rheolwr Caffael

Rheoli Fersiynau'r Ddogfen

Rhif Fersiwn	y	Rheswm am newid:	Awdur:	Dyddiad newid:
1.0		Sefydlwyd Drafft i'r UDRh ei ystyried	HD	
1.1		Newid teitl Saesneg y Dirprwy is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) o <i>Pro i Deputy Vice-Chancellor</i>	CG	
1.2		Adborth Pwyllgor Strategaeth y Cyngor	CG / HD	26.06.15
2.0		Tynnu'r cyfeiriad at "drafft" ymaith ar ôl i'r polisi gael ei gymeradwyo yn y Cyngor ar 09.07.15.	CG	10.07.15

Statws cyfredol y Polisi: Cymeradwywyd

Polisi'n berthnasol i: HE

Dyddiad cadarnhau: 09.07.15

Dyddiad yn effeithiol o: 10.07.15

Dyddiad adolygu'r polisi: 09.07.16



ATODIAD A – SAITH EGWYDDOR BYWYD CYHOEDDUS

Ffynhonnell: Adroddiad y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Adroddiad Nolan)

Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu elwa mewn ffordd arall.

Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain mewn sefyllfa o ddyled ariannol neu unrhyw ddyled arall i sefydliadau neu unigolion allanol a allai geisio dylanwadu ar y ffordd y maent yn perfformio'u dyletswyddau swyddogol.

Gwrthrychedd

Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymhell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'w swydd.

Bod yn Agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a gweithrediadau a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar y wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd.

Gonestrwydd

Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus.

Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo ac ategu'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiamp.



ATODIAD B – COD YMDDYGIAD MEWN PERTHYNAS AG ANRHEGION / LLETYGARWCH

ANRHEGION, CYMWYNASAU A RHODDION

Y Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) sy'n gyfrifol am gynnal cofnodion ariannol mewn perthynas ag arian a gedwir ar ymddiriedolaeth gan y Brifysgol ac am gychwyn hawliadau i adennill treth lle bo'n briodol.

Ni ddylid derbyn anrhegion gan Gontractwyr / Cyflenwyr ar wahân i eitemau o werth cynhenid isel fel dyddiaduron, calendrau ac ati. Dylai'r staff osgoi sefyllfa lle gallent gael eu gweld yn cael eu dylanwadu i wneud penderfyniad busnes. Os bydd sefyllfa'n codi lle mae gweithiwr yn ansicr a fyddai'n briodol derbyn cynnig anrheg neu letygarwch, dylent fynd yn syth at y Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) i gael cyngor.

Mae lletygarwch cymedrol yn cael ei dderbyn o ran cwrteisi perthynas fusnes. Ni ddylai amledd a graddfa'r lletygarwch fod yn sylweddol fwy nag y mae'r Brifysgol yn debygol o'i ddarparu'n ôl.

Cynhelir cofrestr o anrhegion a lletygarwch gan y Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio).

Dylai'r staff sy'n gyfrifol am brynu cyflenwadau neu offer gymryd gofal arbennig i sicrhau na chânt eu beirniadu am drin yn annheg cyflenwyr sy'n cymryd rhan mewn proses dendro.

Anrhegion yw eitemau o werth ar wahân i arian parod neu daliad ariannol. Pan gynigir anrhegion i staff yn gyfnewid am eu cyfraniad fel rhan o'u dyletswyddau i ddigwyddiadau arbennig, fel seremoni wobrwyo neu apwyntiadau annerch cynulleidfa, gellir eu derbyn ar yr amod nad yw gwerth yr anrhegion yn fwy na £40. Lle cynigir anrheg fwy gwerthfawr, dylid ei derbyn ar ran y Brifysgol, ond rhoi gwybod amdani i'r Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) a'i chofnodi yn y gofrestr.

Ni ddylid byth derbyn arian parod oni ei fod rhan o gytundeb cyfamodol a gymeradwywyd gan y rheolwr llinell ac/neu'r Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio).



ATODIAD C – ASESIAID RISG CYNALIADWY LLAWN



ASESIAD RISG CYNALIADWY

Cynnyrch / Gwasanaeth Angenrheidiol: _____

Amcangyfrif Cost Prynu: _____

MATER	IE/NA
Oes wir angen y Cynnyrch/gwasanaeth?	
Oes label eco, cynnyrch, neu ddatganiad cyflenwr yn gysylltiedig â'r cynnyrch e.e. coed FSC, Energy Star, Masnach Deg, Bwyd Organig.	
A fydd y cynnyrch yn destun cynnal a chadw parhaus neu'n defnyddio symiau mawr o nwyddau traul.	
Oes effeithiau Cynaliadwyedd allweddol wrth gynhyrchu'r cynnyrch. Er enghraifft, Allyriadau CO2, llafur plant/gorfodol ac ati.	
A fydd cost am osod a hyfforddiant.	
Oes potensial i ecsbloetio gweithwyr y cyflenwr.	
Ydy'r cynnyrch yn cynnwys deunydd anadnewyddadwy h.y. Nid yw'r deunydd yn atgynhyrchu mewn 50 mlynedd e.e. Craig, pren caled, cemegau, olew ac ati.	
Oes materion lechyd a Diogelwch yn gysylltiedig â'r cynnyrch/gwasanaeth	
Oes materion penodol yn gysylltiedig â'r cynnyrch/gwasanaethau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth	
Allai'r cynnyrch hwn gael ei gyflenwi gan fusnesau bach a chanolig/mentrau a gefnogir/Cyflenwyr Lleol	



Oes cyfle i ddefnyddio'r gwasanaeth/cynnyrch i gefnogi adfywio economaidd	
Allai fod potensial i golli swyddi trwy ddyfarnu'r contract hwn e.e. colli busnes i gyflenwr presennol	
Allai fod risg cysylltiadau cyhoeddus/carfan bwysu sydd â diddordeb yn y cynnyrch/gwasanaeth hwn	
Oes deddfwriaeth gysylltiedig â chynaliadwyedd presennol neu ar ddod a allai effeithio ar y cynnyrch/gwasanaeth hwn e.e. gwahaniaethu ar sail hil/oedran, y gyfarwydddeb oriau gwaith, WEEE	
Ar gyfer pob contract, gofynnwch i'r cyflenwr a allant gynnig ateb mwy cynaliadwy i'r hyn a nodwyd. Sicrhewch eu bod yn esbonio'n llawn pam ei fod yn fwy cynaliadwy.	
Unrhyw faterion eraill a nodwyd	

Dylai Deiliaid Cyllideb adolygu'u gofynion ar gyfer gwariant yn y terfynau dyfynbris/tendr a gweithio trwy'r Asesiad Risg Cynaliadwy gyda'r Adran Gaffael.

Dim ond canllaw yw'r Asesiad Risg Cynaliadwy a'i nod yw tynnu allan gwybodaeth na fyddem wedi meddwl amdani fel rheol. Ymgymerir â sawl mater a phwnc yn y ddogfen hon ar hyn o bryd fel mater o safon yn y weithdrefn dyfynbris/tendr

Llofnodwr Cyfadran / Ysgol: _____

Llofnodwr Caffael: _____

Dyddiad Cwblhau: _____